# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 19 MEDI 2023 am 10:00 y.b. | TUESDAY, 19 SEPTEMBER 2023 at 10:00 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones ***(Is-Gadeirydd)***, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie ***(Cadeirydd)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats), R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor-Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 <u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 <u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2023.

**3 <u>MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH1 2023/24</u>** (Tudalennau 13 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**4 <u>ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID</u>** (Tudalennau 27 - 34)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**5 <u>ADRODDIAD PERFFORMIAD (LLESIANT) BLYNYDDOL 2022/23</u>** (Tudalennau 35 - 64)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**6 <u>ENWEBIAD I'R PANEL SGRIWTINI CYLLID</u>** (Tudalennau 65 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**7 <u>BLAEN RAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 71 - 78)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd) (ar gyfer y cyfarfod hwn)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Arfon Wyn.

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorydd Neville Evans (Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Nicola Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid).

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Alwen Watkin, Dyfed Wyn Jones, Llinos Medi (Arweinydd), Alun Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Mr Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg)

---

Gan fod y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn absennol, cafodd y Cynghorydd Sonia Williams ei hethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Douglas Fowlie ddatgan diddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 4 ar y rhaglen gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Goleg Llandrillo Menai.

Yn yr un modd, bu i'r Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer) (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor) ddatgan diddordeb mewn perthynas ag eitem 4 gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Goleg Llandrillo Menai.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir: -

19 Ebrill, 2023

23 Mai, 2023 (ethol Cadeirydd/Is-gadeirydd)

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2022/23 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad ar y cerdyn sgorio'n portreadu sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn materion yn ymwneud â gwasanaeth cwsmer, pobl a rheolaeth ariannol, a rheoli perfformiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a chyflwynodd grynodeb o'r cynnwys gan gadarnhau fod 91% o ddangosyddion yn perfformio'n unol â'r targed, neu o fewn 5% i'r targed. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o straeon cadarnhaol am berfformiad ym maes atal digartrefedd, y Gwasanaethau Oedolion, prydlondeb penderfyniadau cynllunio, gwelliannau yng nghyflwr ffyrdd, strydoedd glân, nifer y tai gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd ac adfer nifer yr ymwelwyr â chanolfannau hamdden i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae cyfraniad staff y Cyngor at y perfformiad cadarnhaol hwn yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod a'i ganmol. Lle nad yw perfformiad yn cyrraedd y targed bydd y meysydd hynny, ac yn benodol canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen, nifer cyfartalog o ddyddiad i ddarparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a chanran yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod, yn cael eu monitro gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol. I orffen, dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei fod yn gobeithio fod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini fod perfformiad yn bwysig i'r Cyngor, ei fod yn cael ei reoli'n gadarn a'i fod yn derbyn sylw dyledus ar lefel wleidyddol a weithredol.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad fel un a oedd yn adlewyrchu cynnydd cadarnhaol yn ystod y flwyddyn yn gyffredinol, yn ogystal â chysondeb y perfformiad. Trafododd yr aelodau adroddiad y cerdyn sgorio mewn manylder gan herio Aelodau Portffolio ar sawl mater, yn cynnwys sut i godi ymwybyddiaeth am berfformiad da yn fewnol ac yn allanol, gwasanaeth cwsmer mewn perthynas â monitro galwadau ffôn ac ansawdd yr ymatebion, darparu addasiadau a grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, rheoli plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant - a pherfformiad yn erbyn Dangosydd 23 yn benodol, a sut y gellir adrodd arno i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol a ph'un a ddylai'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol edrych ar hyn. Ystyriwyd rheolaeth ariannol yn ogystal, ac yn benodol y tanwariant a ragwelir yng nghyllideb 2022/23 a sut y gallai hynny gynorthwyo'r Cyngor i fynd i'r afael â'r pwysau ychwanegol y disgwylir i wasanaethau ei wynebu yn 2023/24. Gofynnwyd cwestiynau am y fframwaith rheoli perfformiad yn gyffredinol, yn cynnwys sut mae gweithredoedd i fynd i'r afael â meysydd/dangosyddion sy'n tanberfformio yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cwrdd â nodau ac amcanion perfformiad. Ymatebodd yr Aelodau Portffolio a Swyddogion i'r materion a godwyd fel a ganlyn -

- Esboniwyd mai'r ffordd orau o ddangos fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn darparu gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau i bobl Ynys Môn yw trwy adroddiadau rheoleiddwyr ac mae'r Cyngor wedi derbyn sawl un cadarnhaol yn ddiweddar, gan dystio i'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed. Mae cydnabod, hyrwyddo a dathlu

llwyddiannau hefyd yn fater o gyfathrebu mewnol anffurfiol ac efallai y dylai fod yn fan cychwyn. Y bwriad yw cynnwys negeseuon o'r fath wrth roi cyhoeddusrwydd i Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2023-28 yn ystod yr wythnosau nesaf gan amlygu fod nodau strategol newydd y Cyngor am y cyfnod yn seiliedig nid yn unig ar berfformiad cadarn, ond ar ymrwymiad a gwytnwch y gweithlu hefyd, a lwyddodd i gynnal perfformiad yn ystod blwyddyn anodd a heriol pan fu'n rhaid i'r Cyngor wynebu galwadau ychwanegol oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae angen i negeseuon allanol fod yn gymesur ac, er bod perfformiad yn dda mewn nifer o wasanaethau, rhaid cydnabod bod angen gwella rhai gwasanaethau. O safbwynt aelodau etholedig, mae'r cynghorau tref a chymuned yn cynnig cyfleoedd iddynt godi ymwybyddiaeth am berfformiad da a rhannu a hyrwyddo arfer dda.

- Cadarnhawyd fod prosiect profiad y cwsmer yn mynd rhagddo sy'n rhoi sylw i sawl agwedd yn gysylltiedig â gofal cwsmer, gan gynnwys y system ffôn. Er bod modd cofnodi nifer y galwadau ffôn, nid oes modd monitro ansawdd ar hyn o bryd o ran yr ymatebion a roddir i gwsmeriaid a sut y cânt eu trin. Mae sicrhau'r gallu i wneud hyn yn ystyriaeth allweddol wrth uwchraddio'r system. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn derbyn adborth uniongyrchol gan gwsmeriaid hefyd, trwy'r broses Gwynion a Chanmoliaeth sy'n adlewyrchu profiadau pobl o'r gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt a ph'un a gawsant eu trin yn dda ai peidio.
- Adroddwyd y gellir priodoli'r dirywiad yn y perfformiad wrth ddarparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl i anawsterau i gael mynediad i rai eiddo, mwy o waith yn dilyn cynnydd yn y ceisiadau ar ôl Covid, yn ogystal â phrinder contractwyr i wneud y gwaith. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y bydd rhaid cynyddu'r diwrnodau targed yn 2023/24 yn ôl pob tebyg ond bydd y Polisi a'r broses Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael eu hadolygu yn 2023/24 hefyd, yn cynnwys arferion gweithredol, yn ogystal â'r cytundeb gyda'r asiantaeth Gofal a Thrwsio, gan ystyried y ffaith fod niferoedd wedi cynyddu ond fod angen i'r gwasanaeth reoli adnoddau i gwrdd â'r galw.
- Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y tanwariant o £1.212m a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn cynnwys nifer o eitemau unwaith ac am byth megis grantiau, incwm gwell na'r gyllideb o ffynonellau amrywiol, swyddi gwag a defnyddio arian wrth gefn i leihau'r pwysau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol a dywedodd fod hyn yn cyfrannu at yr alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ond byddai'r sefyllfa'n wahanol oni bai am hynny. Dywedodd fod y tanwariant wedi atgyfnerthu arian wrth gefn y Cyngor, sef £13.9m, ond atgoffodd y Pwyllgor fod £3.8m o arian wrth gefn wedi'i ymrwymo i gydbwyso cyllideb 2023/24 ac, ar ôl defnyddio arian wrth gefn, mae'n diflannu ac ni ellir ei ddefnyddio eto. Amlinellodd y risgiau sy'n gysylltiedig â phroses gosod cyllideb 2024/25, yn enwedig mewn perthynas â chynnydd mewn costau, costau ynni, chwyddiant cyffredinol a phwysau ar gyllidebau gwasanaethau penodol a dywedodd y byddai'r tanwariant yn cynnig clustog ariannol i'r Cyngor wrth wynebu'r heriau sydd o'i flaen.

  Gofynnwyd rhagor o gwestiynau am danwariant sylweddol yn 2020/21 a 2021/22 a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn ystod y blynyddoedd hynny a gwnaed y pwynt bod angen ystyried lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn y dyfodol yn sgil yr argyfwng costau byw ac oherwydd fod pobl nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth gyda'r Dreth Gyngor yn cael trafferth ymdopi. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol yn 2020/21 a 2021/22 i gwrdd â chostau ychwanegol yn gysylltiedig â Covid-19, gan greu incwm ychwanegol i'r Cyngor, a dyma oedd i gyfrif am y tanwariant yn y blynyddoedd hynny. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, fod lefel Treth Gyngor Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod ymysg yr isaf yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd, ac mae hynny'n wir o hyd; dywedodd unwaith eto mai ei nod fel Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid oedd cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor

DRAFT

cyn ised â phosib i bobl Ynys Môn wrth sicrhau fod cyllideb y Cyngor yn cael ei rheoli yn ddarbodus ac yn gyfrifol.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad yw plant ond yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) pan fydd hynny'n briodol ac yn ddiogel, a phan ystyrir nad yw'r perygl o niwed yn bodoli bellach. Mae Dangosydd 23 yn un hanesyddol ac mae'n cyfeirio at gyfnod pan oedd plant yn aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am gyfnod o amser heb ystyried achosion unigol. Nid yw'r Swyddog Diogelu wedi mynegi unrhyw bryder ynghylch y perfformiad mewn perthynas â'r dangosydd ac oherwydd hynny, rhaid gofyn a yw'n ychwanegu gwerth. Y brif ystyriaeth yw lles plant gan olygu y dylent gael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am resymau diogelwch ac nid i gwrdd â tharged. Byddai'n hapus i'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol edrych ar y dangosydd a/neu awgrymu dangosydd gwahanol, neu gallai graffu ar yr adroddiad Blynyddol Amddiffyn Plant - nid yw'r adroddiad diweddaraf yn codi unrhyw bryderon yn y cyswllt hwn. Pwysleisiodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd a Rheolwr Portffolio ar gyfer Cyllid, fod rhoi'r data yn ei gyd-destun a chyflwyno esboniad naratif yn bwysig er mwyn deall y sefyllfa wirioneddol a dywedodd na ddylid gosod targedau o'r fath yn fympwyol.
- Bod y broses a'r dull o Reoli Perfformiad yn cynnwys llunio cynllun a'i roi ar waith, yn ogystal â monitro ac adrodd ar gynnydd a chyflawniad. Er bod y targedau yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol, maent yn cael eu llywio gan wybodaeth am risgiau cyfredol a dyheadau'r Cyngor ac, o'u cyfuno, maent yn sicrhau fod y targedau'n briodol, eu bod yn heriol, ond bod modd eu cyflawni hefyd. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn ymchwilio meysydd sy'n tanberfformio, gan gynnwys sut y gellir eu hunioni. Mae mesurau i wella perfformiad a'u rhoi ar waith yn cael eu trafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod rhaid cael cysylltiad rhwng y mesurau a rhaid iddynt ystyried y cyd-destun lleol, yn cynnwys grymoedd nad oes gan y Cyngor reolaeth arnynt ond y mae'n rhaid eu hystyried wrth adrodd ar berfformiad yn erbyn y DPA. I sicrhau fod dangosyddion yn ystyrlon, maent yn cael eu herio gan y Pwyllgor Gwaith a'r Aelodau Portffolio mewn trafodaethau anffurfiol. Mae cerdyn sgorio corfforaethol newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae cyswllt rhyngddo a Chynllun Corfforaethol newydd y Cyngor ac mae ystyriaeth yn cael ei roi i sut mae dylanwadau allanol yn cyfrannu at y broses er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn edrych ar feysydd sy'n goch o ganlyniad i ffactorau sydd tu hwnt i'w reolaeth, a chan ystyried hefyd tueddiadau dros amser sy'n gallu amlygu digwyddiadau e.e. yr argyfwng costau byw, sy'n esbonio newidiadau mewn perfformiad.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2022/23, ac ar ôl nodi ymatebion Aelodau Portffolio a Swyddogion i'r materion a godwyd, penderfynwyd –**

- **Nodi adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2022/23, yn cynnwys y meysydd gwella a'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth eu harchwilio i reoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac apeliadau cynllunio, ac**
- **Argymell adroddiad y cerdyn sgorio a mesurau lliniaru a nodir ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.**

**Gweithred: Y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol i edrych yn fanwl ar p'un ai yw Dangosydd Perfformiad 23 (Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) os cafodd ei dynnu oddi ar y CAP yn ystod y flwyddyn) yn parhau i fod yn fesur priodol a pherthnasol o berfformiad.**

## 4 STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG – ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y "Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg" i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno. Roedd yr adroddiad ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion o bob ffynhonnell wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, a dywedodd ei fod yn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Gofynnir am farn y Pwyllgor Sgriwtini, yn cynnwys unrhyw argymhellion a/neu newidiadau y mae'n dymuno eu gwneud mewn perthynas â'r Strategaeth ar ôl ystyried yr ymatebion a chyn i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal rhwng 31 Mawrth ac 18 Mai 2023. Derbyniwyd cyfanswm o 298 ymateb trwy'r arolwg ar-lein ac mewn llythyrau a negeseuon e-bost ac roedd y mwyafrif (55%) yn cytuno â'r rhesymau dros newid, y weledigaeth a'r egwyddorion arweiniol (58%) a'r gyrwyr newid ac amcanion strategol (53%) yn y strategaeth ddrafft. Cyfeiriodd at drefniadau'r ymgynghoriad sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad ymgynghori a chadarnhaodd fod y prosesau'n rhai cynhwysfawr a chadarn ac ymgysylltwyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Er bod crynodeb o'r sawl a ymatebodd yn cael ei ddarparu yn Atodiad 1 yn yr adroddiad, mae atodiadau 2 i 8 yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl, gan gynnwys yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc a gynhaliwyd trwy gyfrwng cyfarfodydd gyda phlant oedran ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, gyda 150 o 28 ysgol yn cymryd rhan. O ran cynnwys yr ymatebion, gellir eu rhannu o dan 4 prif thema yn ymwneud â nifer a digonolrwydd ysgolion ac adeiladau ysgol, Y Gymraeg, eglurder a manylion, a'r Agenda Sero Net. Mae cysylltiad clir rhwng y themâu hyn a nodau strategol Cynllun y Cyngor. Codwyd nifer o bwyntiau dilys o dan bob thema a byddant yn cael eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu cynigion penodol yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd, mae'r adroddiad yn argymell gwneud y tri newid a nodir i'r strategaeth ddrafft, yn ymwneud â'r amserlen weithredu, ffynonellau gwybodaeth a model llywodraethiant. Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar weledigaeth y strategaeth. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ogystal, a chaiff ei gynnwys yn y dogfennau, o dan Atodiad 9.

Ystyriwyd y dogfennau gan y Pwyllgor a chodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r strategaeth a'r ymgynghoriad, gan gynnwys cadernid yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ac, yn benodol, a oedd y broses wedi casglu barn plant a phobl ifanc yn ddigonol ac a fyddai'n bosib gwella'r drefn yn y dyfodol, ym mha ffordd y dylanwadodd yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft, sut fydd y strategaeth yn cynorthwyo i ddarparu darpariaeth addysg ac amgylchedd ddysgu o'r safon uchaf ar gyfer plant a phobl ifanc Ynys Môn, y risgiau a'r heriau wrth wireddu gweledigaeth y strategaeth, cysylltiadau â Chynllun y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer monitro ei weithrediad. Trafodwyd hefyd briodoldeb y weledigaeth o ran ei hymagwedd at ysgolion bach a gofynnwyd o ble daeth y diffiniad o ysgol fach fel un sydd â llai na 91 disgybl, a sut oedd cyfiawnhau hynny. Roedd lleiafrif o'r Aelodau'n gweld y strategaeth fel ail-ddatganiad o'r cynllun blaenorol a'i bod yn "paratoi'r ffordd" ar gyfer y posibilrwydd o gau ysgolion - yn enwedig ysgolion mewn cymunedau gwledig - a bod yr agenda Sero Net, er ei fod yn fater difrifol ynddo'i hun, yn cael ei ychwanegu at y strategaeth er mwyn darparu atebion ar gyfer y broses yn y dyfodol. Roedd yr Aelodau hynny o'r farn fod angen mwy o ystyriaeth i ddulliau gwahanol a chyfeiriwyd at ymateb Cymdeithas yr Iaith i'r ymgynghoriad lle mae'n cefnogi'r cynllun a gyflwynwyd gan Gomisiynydd Addysg Ynys Môn yn 2013 fel "strategaeth ragorach i foderneiddio cymunedau dysgu, gydlynu darpariaeth addysg a sicrhau arbedion cyllidol" a oedd yn golygu arbed arian ar drefniadau gweinyddol yn hytrach nag ar ddarpariaeth addysg mewn cymunedau.



DRAFT

Mewn ymateb i'r materion a godwyd uchod, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fel a ganlyn –

- Er bod y broses ymgynghori ar agor am saith wythnos, roedd rhanddeiliaid – penaethiaid, llywodraethwyr ysgol, cynghorau tref a chymuned, Estyn, GwE, Llywodraeth Cymru, Menter Môn, undebau ac Aelodau Seneddol lleol a rhanbarthol - wedi cael gwybod ymlaen llaw am yr ymgynghoriad. Gofynnwyd hefyd i benaethiaid rannu gwybodaeth gyda rhieni. Roedd yr ymgynghoriad yn hawdd mynd ato ar wefan y Cyngor a rhannwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cynhaliwyd sesiynau briffio ar gyfer penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal ag aelodau etholedig a chynhaliwyd pum cyfarfod ymgynghori llawn gyda disgyblion o'r sector cynradd, un cyfarfod ymgynghori llawn gyda disgyblion o'r sector cynradd ac un cyfarfod gyda disgyblion Canolfan Addysg Y Bont a threfnwyd sesiwn ychwanegol ar gyfer y rheiny nad oeddent yn gallu bob yn bresennol yn y sesiynau a drefnwyd ar eu cyfer. Mae gwybodaeth ychwanegol am y trefniadau a'r adborth gan ysgolion i'w gweld yn Atodiad 5 yn yr adroddiad ac mae'n cynnwys y cwestiynau a ofynnwyd i ddisgyblion ym mhob un o'r sesiynau. Roedd 150 disgybl wedi cymryd rhan o 23 ysgol gynradd, 4 ysgol uwchradd a Chanolfan Addysg Y Bont, ac, o gymharu â'r ymgynghoriad ar Strategaeth Addysg Ynys Môn 2018, roedd y broses yn canolbwyntio mwy ar ymgynghori â phlant a phobl ifanc a llwyddwyd i ennyn mwy o ymateb ganddynt. O ran gwella ymgynghoriadau yn y dyfodol, byddai modd ymestyn y cyfnod ymgynghori, cynnal mwy o sesiynau briffio a chynnal sesiwn benodol ar gyfer disgyblion ôl-16. Fodd bynnag, mae Swyddogion yn fodlon fod yr ymgynghoriad wedi derbyn sylwadau gan ystod o ddisgyblion, o ddisgyblion 5 mlwydd oed i ddisgyblion chweched dosbarth a darpariaeth ôl-16.

- O safbwynt dylanwadu ar y strategaeth, mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd o'r broses ymgynghori, mae Swyddogion yn argymell gwneud newidiadau i'r Amserlen Weithredu ar gyfer Cam 3 2025 ymlaen, fod ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddarparu data yn y strategaeth yn cael eu cynnwys mewn adran newydd yn y strategaeth, a bod y model llywodraethiant yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn llywodraethiant, yn benodol mewn perthynas â chryfhau atebolrwydd a threfniadau monitro. Codwyd nifer o bwyntiau dilys yn ystod yr ymgynghoriad a chyflwynwyd sylwadau a syniadau buddiol a diddorol gan ddisgyblion ysgol, ac er nad ydynt wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y strategaeth ddiwygiedig byddant yn cael eu hystyried ymhellach wrth lunio unrhyw gynigion penodol. Er y gellir gwella nifer a maint yr ymatebion bob amser, ystyrir bod y safbwyntiau a gasglwyd yn ddigonol ac yn briodol at ddibenion yr ymgynghoriad hwn.

- Pwrpas cyffredinol y strategaeth yw sicrhau darpariaeth addysg ac amgylchedd dysgu o'r safon uchaf gyda sawl gyrrwr newid - gan sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer dysgwyr, datblygu arweinyddiaeth gref ar bob lefel, sicrhau adeiladau ac amgylcheddau dysgu o safon uchel ac addas i bwrpas, gwella mynediad i sicrhau llesiant, gofal ac iechyd mewn ysgolion, sicrhau fod ysgolion yn meddu ar yr adnoddau a'r capasiti i yrru'r Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus, sicrhau fod ysgolion yn gynaliadwy a'u bod yn gallu gweithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael - a'r cyfan yn anelu at ddarparu darpariaeth addysg o'r safon uchaf mewn adeiladau sy'n addas i bwrpas.

- Bod cyflawni Sero Net yn un o ymrwymiadau allweddol y Cyngor ac mae'n un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd y Cyngor yn adolygu ei asedau fel rhan o'r ymrwymiad hwn a chan fod cymaint o ystâd adeiladu'r Cyngor yn ysgolion, rhai nad ydynt yn y cyflwr gorau, mae'n rhaid i'r ymgyrch i gyflawni Sero Net a datgarboneiddio fod yn elfen annatod o'r strategaeth moderneiddio cymunedau dysgu.

DRAFFT

- Bod yr Awdurdod yn ystyried ysgol fechan fel un sydd â llai na 91 o ddisgyblion yng nghyd-destun yr heriau a wynebir ganddynt, fel y mae'r adroddiad yn ei nodi. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Llywodraeth Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Ysgolion) (Cymru) 2014 sydd yn diffinio ysgolion bach fel ysgolion sydd â llai na 91 disgybl. Tra bod yr Awdurdod yn nodi ac yn parchu safbwyntiau Cymdeithas yr Iaith, pwrpas y strategaeth yw nodi, ar lefel uchel, yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor a'r egwyddorion ar gyfer gyrru newid. Cyflwynir gwybodaeth fanylach fel rhan o gynigion penodol a gyflwynir yn y dyfodol.

- Bod yr angen am fuddsoddiad cyfalaf yn un o'r prif heriau o ran cyflawni nodau ac amcanion y strategaeth. Mae cost adeiladu ysgolion newydd wedi codi ac mae'n ddrud, ac er bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu 50% o gost prosiectau o dan Band A a 65% o gost prosiectau o dan Band B, bu'n rhaid i'r cyngor ariannu gweddill y costau. Mae denu grantiau allanol i wella cyflwr yr ystâd o adeiladau ysgol yn heriol hefyd. Yn ogystal, mae rhoi'r strategaeth ar waith yn debygol o olygu y bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd wrth ystyried dyfodol trefniadaeth ysgolion, a bydd unrhyw gynigion o'r natur hwnnw yn cynnwys ymgynghori a thrafodaethau agored a thryloyw.

- Bod y Strategaeth yn cyd-fynd â nifer o amcanion strategol Cynllun y Cyngor, yn cynnwys Sero Net, gofal cymdeithasol a llesiant yng nghyd-destun ysgolion cymunedol a datblygu'r Gymraeg. Mae'n rhagweld darparu'r addysg orau ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, gan sicrhau ysgolion effeithiol o'r maint cywir yn y llefydd cywir. Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd hefyd â nifer o egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran cydweithio, cyfathrebu, cynaliadwyedd, moderneiddio ac ymgynghori.

- Bod trefniadau monitro, rheoli a llywodraethiant yn cael eu nodi yn Atodiad 10 yn y Strategaeth ac mae cydymffurfiaeth agos â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn un o'r gofynion allweddol. Caiff y trefniadau hynny eu diwygio i adlewyrchu'r argymhelliad i gryfhau agweddau atebolrwydd a monitro. Mae atebolrwydd yn bodoli ar dair lefel, gyda'r Bwrdd Rhaglen, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, yn gyfrifol am drosolwg cyffredinol, Grŵp Llywio sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad ar gyfer y rhaglen a grŵp Gweithredol sy'n gyfrifol am benderfyniadau gweithredol a datrys problemau o ddydd i ddydd. Bydd y Bwrdd Rhaglen yn darparu diweddariadau rheolaidd.

- Mewn ymateb i gwestiwn ychwanegol am ystyried digonolrwydd ac argaeledd ardaloedd chwarae mewn ysgolion fel ffactor ar draws y sir, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod enghreifftiau o gyfleusterau o'r fath mewn ysgolion cymunedol sydd ar gael i'w defnyddio'n ehangach tu allan i oriau ysgol. Y meddylfryd tu ôl i ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned yw bod adeiladau a chyfleusterau ysgol ar gael i'r gymuned ehangach eu defnyddio ac, o ran y strategaeth, gellir ystyried bod hyrwyddo chwarae yn agwedd bwysig o lesiant a dysgu disgyblion, yn ogystal â hyrwyddo eu rhyngweithio cymdeithasol.

Ar ddiwedd y drafodaeth, cafodd cynnig ei wneud a'i eilio, sef bod y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a'r Gymraeg, ynghyd â'r newidiadau a nodir, yn cael ei hargymell i'r Pwyllgor Gwaith. Cafodd cynnig arall ei wneud a'i eilio, sef bod y Strategaeth yn cael ei gwrthod oherwydd pryder am ddyfodol ysgolion bach a bod angen ystyried dulliau gwahanol, megis y rheiny a gefnogwyd gan y Comisiynydd Addysg, Gareth Jones, ac a amlygwyd yn ymateb Cymdeithas yr Iaith. Yn y bleidlais a ddilynodd, cariwyd y cynnig i argymell y Strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ar ôl craffu ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg ac ar ôl nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r wybodaeth ychwanegol a'r cyngor a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn ymateb**

**i'r materion a godwyd yn y cyfarfod, penderfynwyd argymell y Strategaeth â'r newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 5 CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Drafft i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno.

Cyflwynodd y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol, ychydig o wybodaeth gefndirol a dywedodd fod y Cynllun Rheoli AHNE yn ddogfen statudol y mae'n rhaid ei adolygu bob pum mlynedd, yn unol â'r canllawiau a bennwyd. Er bod y Cynllun yn canolbwyntio ar rinweddau arbennig ac arwyddocâd yr AHNE ac yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer ei dyfodol, mae'n gynllun trawsadrannol gan fod iddo arwyddocâd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, ieithyddol ac addysgiadol ac, fel y cyfryw, mae'n alinio â'r amcanion a'r blaenoriaethau perthnasol a nodir yng Nghynllun y Cyngor. Roedd y Cynllun Rheoli AHNE drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos o hyd, a gynhaliwyd rhwng 28 Ebrill a 9 Mehefin 2023, ac fe'i ddiweddarwyd i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd. Derbyniwyd cyfanswm o 73 ymateb a cheir dadansoddiad ohonynt yn yr adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ac mae nifer o'r sylwadau'n cyfeirio at ddatblygiad Penrhos a oedd dan ystyriaeth ar y pryd. Bydd fersiwn hawdd ei ddefnyddio o'r Cynllun yn cael ei lunio ar ôl cwblhau'r cyfnod ymgynghori ac ar ôl gwneud y newidiadau, yn ogystal â Chynllun Gweithredu fydd yn cael ei fonitro i sicrhau fod y weledigaeth ar gyfer yr AHNE yn cael ei rhoi ar waith a bod cymunedau a rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y broses.

Ystyriwyd nifer o faterion yn y drafodaeth a ddilynodd ar y Strategaeth ac ymateb y cyhoedd iddi, yn cynnwys y rheswm dros baratoi Cynllun Rheoli AHNE a'r cysylltiad rhyngddo a Chynllun y Cyngor, cadernid yr ymgynghoriad cyhoeddus o ystyried mai dim ond 73 o ymatebion a dderbyniwyd, ac ym mha ffyrdd y dylanwadodd y broses honno ar y ddogfen derfynol, y berthynas rhwng y Cynllun Rheoli AHNE a'r broses rheoli cynllunio, yr angen am gynllun cyfathrebu, y berthynas gyda gwasanaethau mewnol o fewn y Cyngor, yn enwedig addysg a'r gwasanaeth ieuenctid, a gwella ymgysylltu a chydweithio gyda pherchnogion tir a ffermwyr. Codwyd materion penodol yn ymwneud â'r sefyllfa yn Llanddwyn a Niwbwrch hefyd, mewn perthynas â gwarchod a chadwraeth.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio a Swyddogion a oedd yn bresennol wybodaeth ychwanegol fel a ganlyn –

- Bod gofyn cyfreithiol ar awdurdodau lleol sy'n gweinyddu AHNEau i baratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli ar gyfer eu hardal ac i adolygu'r cynlluniau hynny bob pum mlynedd. Er bod yr adolygiad o'r Cynllun Rheoli dair blynedd yn hwyr oherwydd y pandemig Covid, mae'r amser ychwanegol a'r profiadau a gafwyd wrth ymateb i'r pandemig wedi caniatáu i'r Gwasanaeth sicrhau fod cynnwys a blaenoriaethau'r Cynllun yn briodol ac yn gadarn ac y gallant gwrdd â'r heriau a wynebir gan yr Ynys. Mae'r AHNE yn dirwedd lle mae pobl yn byw a gweithio ac, fel y cyfryw, mae anghenion cymunedau a gallu pobl i wneud bywoliaeth yn yr ardaloedd lle maent yn byw yn bwysig. Er bod y dynodiad AHNE yn ymwneud â'r dirwedd, mae sicrhau buddion cymunedol ac economaidd yn bwysig ac mae hynny'n cael ei gydnabod, ac mae natur a mynd i'r afael â newid hinsawdd yn cael eu cydnabod hefyd. Mae'r Gymraeg yn cael ei chydnabod fel rhinwedd arbennig yn y dynodiad. Wrth roi sylw i'r holl themâu hyn, mae'r Cynllun yn alinio'n agos â blaenoriaethau ac amcanion strategol Cynllun y Cyngor.
- Bod methodoleg ar-lein wedi'i mabwysiadu ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus, fel arfer orau ac i roi gwell mynediad i'r cyhoedd. Er bod y cwestiynau a osodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar feysydd allweddol yn y Cynllun, cawsant eu llunio yn y fath fodd eu bod yn taflu goleuni ar flaenoriaethau pobl ar gyfer y dyfodol, a thrwy hynny lywio gwaith yn y dyfodol. Cafodd y 73 ymateb, gyda'r mwyafrif ohonynt yn sylwadau, eu hasesu

ac ystyriwyd eu bod yn llawn gwybodaeth ac yn adeiladol o ran darparu cipolwg ar feddyliau pobl am yr AHNE, yn ogystal â meysydd y gellir eu gwella. Mae'r sylwadau mwyaf perthnasol wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. O ran nifer yr ymatebion, ystyrir bod yr ymateb yn rhesymol ac mae wedi rhoi darlun da o'r hyn y mae pobl yn ei feddwl ac mae'n cymharu'n ffafriol â nifer o ymgynghoriadau blaenorol. Yn y gorffennol trefnwyd diwrnodau agored i ymgynghori ar fersiynau cynharach o'r Cynllun, ond cymysglyd oedd yr ymatebion. Y tro hwn, y gred oedd y byddai cyhoeddi negeseuon rheolaidd ar y wefan a/neu'r cyfryngau cymdeithasol trwy gydol y cyfnod ymgynghori chwe wythnos o hyd yn ennyn ymateb da. Mae lle bob amser i wella agweddau, ac edrychir ar hynny yn ystod y pum mlynedd nesaf, ond, serch hynny, mae'r Gwasanaeth yn hyderus fod y broses ymgynghori'n un gynhwysfawr.

- Bod y Cynllun Rheoli AHNE yn ystyriaeth berthnasol yn y broses datblygu cynllunio ac, fel y cyfryw, ymgynghorir â Swyddogion AHNE ar geisiadau cynllunio. Fel tirwedd lle mae pobl yn byw a gweithio, mae datblygu'n digwydd yn yr AHNE gan fod cymunedau angen parhau i fod yn hyfyw o fewn y dynodiad. Bydd yr AHNE yn derbyn sylw penodol fel rhan o'r gwaith o lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ystod y misoedd nesaf.
- Bod y broses ymgynghori wedi amlygu'r angen i wella ac ehangu cyfleoedd cyfathrebu mewn perthynas ag arwyddocâd yr AHNE a phwysigrwydd natur ym mywydau pobl, yn ogystal â gwaith y Cyngor wrth reoli'r AHNE. Roedd y sylwadau'n dangos fod gan bobl deimladau cryf ynghylch gwarchod natur ar gyfer y dyfodol ond nad oes cystal dealltwriaeth o'i rôl o safbwynt iechyd pobl a'r gymuned. Mae'r Uned AHNE yn gweithio gyda gwasanaethau eraill yn y Cyngor ac yn ddiweddar cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Dysgu ynglŷn â sut y gellir cyplysu gwaith yr uned gyda'r cwricwlwm a sut all yr uned gydweithio'n agosach ag ysgolion.
- Bod trafodaethau ar y gweill gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, fel yr asiantaeth gyfrifol, mewn perthynas â datrys problemau yn Llanddwyn a Niwbwrch ac mae'r Cyngor yn rhan o'r grŵp a sefydlwyd i ystyried y dyfodol. Ystyrir mai gweithio mewn partneriaeth â CNC, cymunedau, y diwydiant ffermio ac eraill yw'r ffordd ymlaen o ran ceisio mynd i'r afael â materion cymhleth megis yr argyfwng ym myd natur a newid hinsawdd. Mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio dylanwadu ar CNC ers nifer o flynyddoedd mewn perthynas â Llanddwyn ac mae hynny wedi bod yn heriol. Barn y Cyngor yw bod cynllun yn hanfodol ar gyfer rheoli'r warchodfa fel un o'r safleoedd amgylcheddol pwysicaf yng Nghymru, ac ar gyfer rheoli effeithiau pobl a'r gymuned leol yn fwy cyffredinol. Bwriedir cynnal rhagor o drafodaethau gyda Phrif Weithredwr CNC ym mis Awst.
- Bod partneriaeth hefyd yn cael ei gydnabod fel elfen bwysig o'r berthynas gyda pherchnogion tir a ffermwyr a bod gwella cyfathrebu ynglŷn â gwaith yr AHNE hefyd yn cynnwys tynnu sylw at gyfleoedd i gydweithio gyda rhanddeiliaid. Mae Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar y Cyd yr AHNE yn fforwm sy'n dod â'r partneriaid a'r rhanddeiliaid hynny at ei gilydd i drafod rheoli'r AHNE. Yn ogystal, bydd y Cynllun Gweithredu a fydd yn deillio o'r Cynllun Rheoli'n nodi cyfleoedd i ymgysylltu a chydweithio wrth warchod a rheoli tirwedd yr AHNE yn ogystal ag ystyried buddiannau busnesau, cymunedau, ffermwyr a pherchnogion tir, a phobl leol.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol sylwadau clo ar yr ymgynghoriad a dywedodd er bod nifer yr ymatebion, sef 73, yn ymddangos yn isel, mae'n ganlyniad da o gymharu â nifer o ymgynghoriadau eraill ac roedd yn cynnwys partneriaethau allweddol. Dywedodd fod y Cynllun Rheoli'n cyrraedd ymhell tu hwnt i natur a'r dirwedd yn unig a chyfeiriodd at ei gysylltiad agos â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. Nododd y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth a natur gymhleth rhai o'r materion hynny a chytunodd fod angen gwella cyfathrebu ynglŷn â'r AHNE, o ran ei arwyddocâd a'r hyn y mae'n ei olygu ar lefel ymarferol.


DRAFT

**Ar ôl adolygu sgôp a chynnwys y Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drafft, penderfynwyd argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.**

## 6 DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2023/24, i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno.

Cyflwynwyd y Ddogfen Gyflawni Flynyddol gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, ac mae'n amlinellu rhaglenni gwaith blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 a gynlluniwyd i gyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor. Cyfeiriodd at chwe amcan strategol Cynllun y Cyngor ac mae ffrydiau gwaith penodol a fyddai'n cael sylw yn ystod 2023/24 yn cael eu rhestru oddi tanynt er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion hynny. Datblygwyd y Ddogfen Gyflawni ar y cyd â gwasanaethau ar draws y Cyngor a bydd yn cael ei rhoi ar waith o fewn yr adnoddau a benderfynwyd fel rhan o'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2023/24, ochr yn ochr â gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor. Bydd pob aelod o staff rheng flaen a staff cymorth yn hanfodol i gyflawni'r ddogfen yn llwyddiannus.

Wrth drafod y ddogfen, gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau am yr heriau a'r risgiau wrth geisio gwireddu'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer 2023/24, y trefniadau sydd ar waith i fonitro cynnydd wrth gyflawni'r ffrydiau gwaith a amlinellwyd, i ba raddau y mae'r Cynllun yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â sicrhau fod staff yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o'i gyflawni.

Ymatebodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad i'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- Er mwyn cyflawni'r gwaith yn llwyddiannus, mae'n bwysig nad yw'r un o'r amcanion strategol neu'r ffrydiau gwaith yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain, ond o fewn y cyd-destun lleol. Un o'r prif heriau a risgiau yw'r pwysau ychwanegol sylweddol sydd ar rai gwasanaethau, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn wasanaethau statudol y mae'n rhaid eu darparu o ddydd i ddydd gan olygu fod cynllunio ar gyfer y dyfodol o safbwynt ailfodelu yn fwy heriol. Mae'r cyd-destun ariannol yn achosi pryder hefyd ac mae'n risg gan fod pwysau'n cynyddu ar wasanaethau ar yr un llaw, ond mae angen moderneiddio, i greu adeiladau mwy gwyrdd, i fuddsoddi a chreu swyddi wrth warchod yr amgylchedd ar y llaw arall, ac mae hynny'n golygu fod sicrhau cydbwysedd rhwng y galwadau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd yn hynod o heriol. Capasiti a chadw staff yw'r prif flaenoriaethau i sicrhau fod dyheadau Cynllun y Cyngor, ac amcanion penodol y Ddogfen Gyflawni ar gyfer 2023/24, yn cael eu cyflawni. Mae'r Cyngor yn hyderus fod yr amcanion yn realistig ac y gellir eu cyflawni a bydd yn rhoi trefniadau rheoli perfformiad ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, yn ogystal â nodi a mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a allai godi, gan gofio y gallai rhai o'r risgiau hynny ddeillio o ffynonellau allanol a bydd angen eu lliniaru.
- Mae diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y gwaith cyflawni yn cael eu darparu i'r Byrddau Rhaglen Corfforaethol a bydd y cerdyn sgorio corfforaethol newydd ar gyfer 2023/24 yn cael ei alinio â Chynllun y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Ddogfen Gyflawni'n alinio'n agos â Chynllun y Cyngor gan ei bod yn darparu manylion am y gweithgareddau holl bwysig fydd yn cael eu blaenoriaethu yn 2023/24 i gynorthwyo i gyflawni amcanion y Cynllun. Bydd adroddiadau ar weithredoedd o ddydd i ddydd yn cael eu cyflwyno i'r Byrddau Rhaglen tra bydd adroddiadau ar welliannau, yr effaith ar bobl a pherfformiad yn erbyn dangosyddion yn cael eu darparu trwy gyfrwng y cerdyn sgorio corfforaethol.
- Bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod saith nod llesiant ar gyfer Cymru y mae disgwyl i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag atynt.

DRAFT

Maent yn canolbwyntio ar Gymru fwy llewyrchus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal, Cymru o gymunedau mwy cydlynus, Cymru sydd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Y gobaith yw y bydd y Cyngor yn gallu dangos, trwy chwe amcan strategol Cynllun y Cyngor, ei fod yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn disgwyl i gyrff cyhoeddus roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn eu holl weithgareddau ac mae hynny'n golygu edrych ar yr hirdymor wrth wneud penderfyniadau, mabwysiadu ymagwedd ataliol ac integredig, gweithio ar y cyd a chynnwys pobl ym mhopeth a wnânt. Mae'r Cyngor yn hyderus y gall ddangos ei fod yn cwrdd â disgwyliadau'r Ddeddf.

- Mae'n hanfodol fod staff yn ymwybodol o flaenoriaethau'r Ddogfen Gyflawni a'r hyn a ddisgwylir ganddynt i gynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau hynny, a thrwy hynny gyfrannu at gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor. Mae Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Llinell yn gyfrifol am sicrhau fod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'w staff mewn cyfarfodydd timau ac ar lefel un i un, a bod gweithgareddau'n cael eu cyflawni'n effeithiol.

**Ar ôl ystyried y dogfennau a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Swyddogion, penderfynwyd argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2023/24.**

**7 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill 2024 i'w ystyried.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaen raglen waith ar gyfer 2023/24.**
- **Nodi cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Flaen Raglen Waith.**

**Y Cynghorydd Douglas Fowlie**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 19 Medi 2023 |
| **Pwnc:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2023/24) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | CYNG DOUGLAS FOWLIE |
| **Aelod(au) Portfolio:** | CYNG CARWYN E JONES |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. Argymhelliad/ion**

1.1. Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

1.2. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Nifer y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion y grant cyfleusterau i'r anabl;
- Mae'r dangosydd rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a'r
- Dangosyddion cynllunio (34 a 36)

1.3. Serch hynny, gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth y neu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

1.4. Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

1.4.1. Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen
1.4.2. Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod)
1.4.3. Canran y rhent a gollwyd gan fod eiddo'n wag
1.4.4. Canran yr apeliadau cynllunio a'u gwrthodwyd

1.5. Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

## 2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor

## 3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

4.1 Mae 89% o ddangosyddion perfformiad yr Awdurdod naill ai'n well neu o fewn 5% i'w targedau sy'n adroddiad cadarnhaol ar ddiwedd chwarter 1. Pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd y 3 dangosydd arall yn gwella?

4.2 Mae'r adroddiad yn trafod gorwariant a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac yn cyfeirio at nifer o feysydd o bryder nas ydynt efallai'n amlwg o'r prif ganlyniad. Pa fesurau lliniaru sydd ar waith i fynd i'r afael â'r pwysau cyllidebol hwn a sut y cânt eu monitro yn ystod 2023/24?

4.3 Roedd yr adroddiad cerdyn sgorio blaenorol a dderbyniwyd ym mis Mehefin, 2023 yn trafod trefniadau i gyflwyno diwygiadau i'r cerdyn sgorio presennol i sicrhau aliniad â Chynllun y Cyngor: 2023-2028. Beth yw'r camau nesaf ar gyfer gwireddu'r ffrwd waith hon yn llawn a beth yw'r amserlen ar gyfer gweithredu?

## 5. Cefndir / Cyd-destun

5.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i'w cyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

| | |
|---|---|
| 5.2 | Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn adnabod anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant, ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y bum mlynedd nesaf. |
| 5.3 | Mae'r adroddiad monitro cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor. Mae'n darparu'n deallusrwydd er mwyn galluogi'r Cyngor i ddilyn agwedd ragweithiol tuag at reoli perfformiad ac felly, mae'r adroddiad yn adnabod unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol. |
| 5.4 | Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd Ch1, a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch1. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 1 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2022/23 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2023 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2023/24)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i'w cyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn adnabod anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant, ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

1.3 Mae'r adroddiad monitro cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor. Mae'n darparu'n deallusrwydd er mwyn galluogi'r Cyngor i ddilyn agwedd ragweithiol tuag at reoli perfformiad ac felly, mae'r adroddiad yn adnabod unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd Ch1, a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n monitro perfformiad yn cyd-fynd â thri amcan llesiant presennol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwrachod ein hamgylchedd naturiol.

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn sgorio pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).

2.3 Mae unrhyw dargedau yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol dargedau chwarterol pan fydd angen.

2.4 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn. Felly, gadawyd y golofn tueddiadau'n wag yn fwriadol ar gyfer Ch1 a bydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad cerdyn sgorio o Ch2 ymlaen.

2.5 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.


## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae mwyafrif (67%) y dangosyddion yn yr adran hon sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodi'r rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Ar ddiwedd Ch1 mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 2.1 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 2.1 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn cymharu'n ffafriol yn erbyn yr un cyfnod ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf.

3.3 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon sylweddol gan fod y dangosyddion, ar y cyfan, yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â dau ddangosydd sydd yn tanberfformio ac sydd yn AMBR yn erbyn eu targedau.

3.3.1 Dangosydd 09 – % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen – sy'n dangos fod 84% o ymatebion yn unol â'r amserlen yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn welliant o ran y perfformiad o'r 67% a welwyd ar ddiwedd Ch1 2022/23. Mae'r newid yn y targed, o 80% i 90% wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen yn golygu fod y perfformiad yn Ambr ar gyfer y chwarter. Bu i'r dangosydd hwn dan-berfformio yn ystod 2022/23 a braf yw nodi fod y gwelliannau a welir gan y Tîm Arweinyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad.



3.4 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd y chwarter cyntaf, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld gorwariant o £0.744m yng nghyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2024. Fodd bynnag, mae pryder am nifer o feysydd nad ydynt efallai'n amlwg o'r ffigwr hwn ac maent yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'r prif feysydd o bryder yn berthnasol i:

3.4.1 Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y cynnig tâl ar gyfer 2023/24 a gall fod yn sylweddol uwch na'r hyn a ganiateir yn y gyllideb. Er bod cronfa wrth gefn glustnodedig mewn lle i wrthbwyso unrhyw setliad, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol yn llawn.

3.4.2 Mewn perthynas â'r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol, rhagwelir gorwariant o £2.179m. Serch hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio oherwydd bod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y gorwariant. Heb y cyllid ychwanegol hwn, byddai'r gorwariant oddeutu £3.5m.

3.4.3 Yn y pendraw, bydd problemau costau byw yn arwain at gynnydd mewn galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio, ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.5 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2023/24 hefyd yn cael effaith ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welir yn 2023/25 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor a bydd hyn yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd y tîm rheoli'n adolygu'r sefyllfa ariannol yn agos yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, ac efallai y bydd angen weithredu mesurau arbed costau yn 2023/24 er mwyn cynnal y lefel bresennol o arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol.

3.6 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £1.657m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

3.7 Mae gwybodaeth bellach am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 1', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 1' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 1' fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi.

3.8 Mae canlyniadau'r dangosyddion ar gyfer yr adran hon yn rhoi sicrwydd digonol fod y Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gwsmeriaid a chyllid mewn modd sy'n ddisgwyliedig gan Gyngor sy'n cael ei reoli'n dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 1 mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (89%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae tri dangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Ch1 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Ar ddiwedd Chwarter 1, mae perfformiad ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosydd dan yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.

4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys


4.3.1 Dangosyddion y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS) (9 a 10) – lle mae'r ddau ddangosydd yn wyrdd yn erbyn eu targedau. Roedd dangosydd 10 yn benodol yn dangos bod 92% o gleientiaid yn teimlo bod eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff.

4.3.2 Dangosydd 11 – Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd – gydag 18 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o gymharu â tharged o 12. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 18 llai o dai gwag yn ein cymunedau.

4.4 Mae dau o'r tri dangosydd sy'n tanberfformio i'w gweld dan yr ail amcan llesiant, **Amcan 2,** lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

4.4.1 Dangosydd 29 – Nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod) – yn goch gyda pherfformiad o 52 diwrnod yn erbyn targed o 40. Mae hyn yn ostyngiad ar y 32 diwrnod a welwyd ar gyfer yr un cyfnod yn 2022/23 a'r 41 diwrnod yn 2021/22.

Mae perfformiad yn gysylltiedig â'r dangosydd perfformiad allweddol hwn wedi dioddef oherwydd y nifer uchel o eiddo sydd wedi'u dychwelyd yn ystod y chwarter sydd angen gwaith sylweddol er mwyn gallu eu defnyddio eto, ac i fodloni safonau SATC. O'r 45 eiddo a fu'n wag am dros 40 diwrnod, roedd 30 (66%) o'r rheini wedi'u nodi fel angen 'gwaith mawr'. Wrth i'r nifer o eiddo sydd angen gwaith sylweddol cynyddu, yr anoddach ydy hi i weddnewid tai newydd ac eiddo a brynir yn ôl oherwydd y diffyg gweithwyr sydd ar gael i gwblhau'r gwaith. Bydd gwelliant ar gyfer y dangosydd hwn unwaith y bydd eiddo a nodir yn 'gwaith mawr' wedi'i leihau sydd yn ei dro yn cynyddu capasiti.



4.4.2 Dangosydd 23 - Dangosydd 36 – Gwasanaethau Landlordiaid: mae canran y rhent a gollwyd gan fod eiddo’n wag yn goch ar y cerdyn sgorio gydag1.97% wedi’i golli yn erbyn targed o 1.70%


Mae’r dangosydd hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â’r dangosydd a drafodir uchod. Mae wedi cymryd mwy o amser i logi unedau llety ac mae’r rent a gollwyd yn uwch.

4.5 Er bod angen gwella perfformiad o dan yr amcan hwn a mabwysiadu mesurau lliniaru, mae’n bwysig nodi enghreifftiau o berfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter, gan gynnwys:

4.5.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter. Mae hyn yn galonogol mewn cyfnod lle mae’r Gwasanaeth yn parhau i fod o dan bwysau oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a phroblemau wrth recriwtio staff.

4.5.2 Mae’r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai wedi perfformio’n dda ac mae’r ddau’n Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter.

4.5.3 Mae dangosydd y Grant Cyfleusterau i’r Anabl (dangosydd 28) yn dangos gwelliannau cadarnhaol ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn gyda pherfformiad o 160 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu’n ffafriol â 193 diwrnod cyfartalog a welwyd ar ddiwedd 2022/23, ac mae’n dangos bod y mesurau lliniaru a gymerwyd o ganlyniad i berfformiad gwael yn ystod 2022/23 yn dechrau cael effaith.




4.6 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle’r ydym yn gweithio gyda’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol wedi bod yn dda hefyd, gyda 86% o’r dangosyddion yn uwch na’r targed.

4.7 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:


4.7.1 Mae tri dangosydd rheoli gwastraff (Dangosydd 31 - 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter cyntaf. Roedd 95% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Roedd canran y gwastraff a gafodd ein ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 69.72% ar gyfer y chwarter, ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer gweddill y flwyddyn.

4.7.2 Mae perfformiad dau o'r tri dangosydd cynllunio (dangosyddion 35 a 37) yn Wyrdd yn erbyn y targed, ac maent yn uwch na pherfformiad y blynyddoedd blaenorol. Mae'r ceisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn amser (dangosydd 35) yn perfformio'n dda iawn gyda 97% o'r ceisiadau wedi'u pennu ar ddiwedd Ch1. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad o 91% ar ddiwedd 22/23 a 79% ar ddiwedd 2021/22 a 2020/21.

4.8 Yr unig ddangosydd sydd yn tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.8.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 0% o gymharu â tharged o 65%. Mae hyn yn is na'r un cyfnod yn 2022/23 pan wrthodwyd 38%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio â nifer fechan o achosion. O'r ddwy apêl ar gyfer y chwarter hwn, ni chafodd yr un eu gwrthod. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apeliadau ar gyfer ceisiadau tebyg er mwyn gweld a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n galw am ddehongliad gwahanol o'n polisïau.



## 5. CASGLIAD

5.1 Mae'n galonogol nodi bod 83% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n uwch neu o fewn 5% o'i targedau ar gyfer y chwarter.

5.2 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Nifer y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion y grant cyfleusterau i'r anabl;
- Mae'r dangosydd rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a'r
- Dangosyddion cynllunio (34 a 36)

5.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn targedau. Amlygir y rhain yn 6.1 isod.

## 6. ARGYMHELLION

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth y neu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

6.1.1 Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen
6.1.2 Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod)
6.1.3 Canran y rhent a gollwyd gan fod eiddo'n wag
6.1.4 Canran yr apeliadau cynllunio a'u gwrthodwyd

## 7. RHESTR TERMAU

7.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

7.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
7.1.2 Ch1 – Chwarter 1
7.1.3 Ch2 – Chwarter 2
7.1.4 Ch3 – Chwarter 3
7.1.5 Ch4 – Chwarter 4
7.1.6 Statws CAG - Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed

7.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
7.1.8 FTE – Cyfystyr ag Amser Llawn
7.1.9 FOI – Rhyddid Gwybodaeth
7.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
7.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
7.1.12 DTL – Anodd eu Gosod
7.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
7.1.14 CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
7.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2022/23

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch / Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | | | | | 91.69% | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | | | | | 85.22% | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 3.20% | 2.60% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 100% | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 68% | 68% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | | 114k | 118k | 546k | 539k | 388k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 53% | 50% | 50% | 72% | 47.5% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 92% | 80% | 80% | 78% | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | | 18 | 12 | 50 | 80 | 91 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | | | 0 | 0 | 3 | 1 | 1 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | | 16 | 18 | 18 | 16.61 | 13.89 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | | | | | | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch4) | | | | | | | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | | 95.83% | 90% | 90% | 91.69% | 94.78% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | | 63.64% | 62% | 62% | 64.71% | 64.85% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | | 18.63 | 19 | 19 | 16.74 | 14.33 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | | 95.30% | 93% | 93% | 98.10% | 96.10% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | | 85.82% | 90% | 90% | 86.75% | 87.15% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | | 1.54% | 2.50% | 10% | 6.15% | 9.79% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Melyn / Yellow | | 15.15% | 15% | 15% | 14.35% | 5.74% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | | 248 | 270 | 270 | 306 | 318 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | | 98.95% | 95% | 95% | 98.31% | 99.10% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | | 89.15% | 90% | 90% | 93.83% | 85.99% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | | 88.46% | 80% | 80% | 89.53% | 80.95% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | | 96.60% | 85% | 85% | 98.45% | 92.00% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | | 160 | 170 | 170 | 193 | 172.3 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Coch / Red | | 52 | 45 | 45 | 35.8 | 28.7 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | | 1.97% | 1.80% | 1.80% | 1.83% | 1.66% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | | 95% | 95% | 95% | 96% | 95.50% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | | 69.72% | 66% | 64% | 63.47% | 62.39% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | | 0.12 | 1 | 1 | 1 | 0.25 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | | 53kg | 55kg | 220kg | 207kg | 223kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | | 97% | 90% | 90% | 91% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | | 0% | 65% | 65% | 47% | 50% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | | 88% | 80% | 80% | 87% | 84% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | 3% | 3% | 2.6% | 3% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | 4% | 4% | 2.6% | 2.8% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | 9% | 9% | 7.6% | 8.2% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | | 120.17 | 127 | | 515.07 | 486.85 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | | 433,992 | | | 1,728,920 | 1,524,961 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | | | | 790,899 | 786,247 |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | | | | +6% | + 26% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2023/24

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | | 13 | 13 | 40 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 2 | - | 4 | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 2 | - | 13 | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | | 83% | 80% | 82% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | | 100% | 80% | 70% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 3 | - | 27 | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | 55 | - | 321 | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | | 80 | - | 495 | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Ambr / Amber | | 84% | 90% | 72% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | | 7.7k | - | 59.5k | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | | 9k | - | 36k | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | | 7k | - | 26k | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | | 2.5k | - | 9.5k | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | | 100k | - | 100k | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | | 96k | - | 327k | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2382 | - | 2288 | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | | 2.1 | 2.1 | 9.15 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 0.8 | - | 4.54 | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 1.3 | - | 4.61 | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | - | - | 8% | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Ambr / Amber | | £170,789,000 | | | £171,459,000 | 0.39% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | | £38,847,000 | | | £37,290,000 | -4.01% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Coch / Red | | -£3,736,851 | -£3,395,825 | -9.13% | | |
| 05) Balansau cyffredinol diwedd y flwyddyn a ragwelir | | | | | | -£9,593,360 | |
| 06) Chost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidebwyd | Gwyrdd / Green | | 2.34% | | | 2.33% | -0.01% |
| 06) Nifer o Wasanaethau rhagwelir yn gorwario mwy na 5% o'i cyllideb | | | | | | 2 | |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 97.80% | | | |
| 08) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Coch / Red | | | 90.70% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 98.49% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 97.11% | | | |

This page is intentionally left blank

| W<br>**CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | 19 Medi, 2023 |
| **Pwnc:** | Panel Sgriwtini Cyllid |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Robin Williams, Dirprwy Arweinydd / Deilydd Portffolio Cyllid |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>07971167198<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r:

**A1** Cynnydd dros y cyfnod diwethaf gyda gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid

**A2** Cynnydd sylweddol wnaed wrth ddatblygu strategaeth gwestiynu ac hunan werthuso fel sail i waith y Panel Sgriwtini Cyllid.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor: 2023-2028.

Mae sicrhau trefniadau ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn yn rhan annatod o allu'r Cyngor wrth gyflawni ar y 6 amcan strategol allweddol (Cynllun y Cyngor: 2023-2028). Ystyrir rôl allweddol gan yr Aelodau Etholedig wrth wireddu'r amcan hon drwy graffu a ddal i gyfrif.

Mae gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid yn cyfrannu at yr amcan yma.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Ar gais y Panel:

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â chyfeiriad gwaith y Panel?
2. Pa awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
3. Pa feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. CYD-DESTUN

1.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol o gyfraniad y panelau sgriwtini at drefniadau llywodaethiant y Cyngor:

- Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Panel Sgriwtini Cyllid**
- Panel Sgriwtini Addysg.

**1.2 Trefniadau Llywodraethiant y Panel**

Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini[1] yn cadarnhau cylch gorchwyl y Panel mewn ffordd sy'n creu'r amodau ar gyfer cwmpas ehangach i'w waith gyda'r manteision allweddol canlynol:

i. Datblygu model o graffu yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
ii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
iii. Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[2] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Panel i'r dyfodol (mewn ffordd sy'n alinio gyda chylch cyllidebol y Cyngor). Hefyd, rhoddwyd trefniadau mewn lle i adrodd gynnydd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan y Cyng. Geraint Bebb, cadeirydd y Panel. Mae aelodaeth y Panel ynghlwm (**Atodiad 1**).

### 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Dyma adroddiad cynnydd pellach gan y Panel Sgriwtini Cyllid sy'n cwmpasu'r cyfnod Mehefin – Medi, 2023.

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 20 Mehefin, 2022
[2] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill a 26 Mehefin 2017

Cynhaliwyd 2 gyfarfod o'r Panel[3] yn ystod y cyfnod hwn a rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol:

**Panel Sgriwtini Cyllid 8 Mehefin, 2023**

**2.1 Monitro Cyllidebau Refeniw Ch4: 2023/24**

Yng nghyfarfod mis Mehefin[4], bu i'r Panel dderbyn adroddiad monitro cyllidebau refeniw Chwarter 4: 2022/23 a oedd yn cynnig darlun cychwynnol diwedd blwyddyn. Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol yn benodol:

- Galw am Wasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Tai yn parhau i gynyddu
- Nifer o grantiau sylweddol yn gwrthbwyso rhyw gymaint o'r pwysau ar gyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion
- Pwysau'n parhau ar gyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol

**Allbynnau:**

i. Derbyn diweddariad am berfformiad cyllidebau refeniw y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 4: 2022/23
ii. Adnabod y meysydd gwariant sy'n debygol o beri risg yn ystod 2023/24.

**2.2 Sesiwn Ddatblygu – Rheoli Dyledion**

Cafwyd cyflwyniad manwl gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 a oedd yn edrych mewn manylder ar systemau'r Cyngor wrth geisio rheoli dyledion. Trafodwyd y priodoldeb o gyflwyno cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a chymhariaeth gyda pherfformiad mewn awdurdodau eraill a hynny fel twl i fonitro effeithiolrwydd ein trefniadau lleol.

**Allbwn:**

Dealltwriaeth o bolisïau a phrosesau'r Cyngor i reoli dyledion.

**2.3 Rhaglen waith y Panel Sgriwtini am y cyfnod Mehefin → Rhagfyr 2023**

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen i sicrhau rhaglen waith gadarn i gefnogi cyfraniad y Panel at drefniadau llywodraethiant y Cyngor. Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Panel Sgriwtini[5] yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Monitro Cyllidebau Ch1:2023/24
- Gwasanaethau Digartrefedd – oblygiadau ariannol y galw cynyddol am wasanaethau digartrefedd.

**Allbynnau:**

i. Trefniadau blaen gynllunio cadarn fel sylfaen i sgriwtini effeithiol
ii. Blaenoriaethu materion i'w hystyried sydd wedi'u halinio gydag amcanion strategol y Cyngor

[3] Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 08/06/23 a 07/09/23
[4] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2023
[5] Panel Sgriwtini Cyllid ar 7 Medi, 2023

**Panel Sgriwtini Cyllid 7 Medi, 2023**

2.4 **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai - Ch1: 2023/24**

Derbyniwyd adroddiad monitro holl gyllidebau'r Cyngor (refeniw, cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai) ar gyfer Chwarter 1 a oedd yn crynhoi perfformiad ariannol am y cyfnod Ebrill – Mehefin, 2023. Rhoddwyd sylw i'r agweddau canlynol:

- Darlun diwedd Chwarter 1 yn un cychwynnol ac o'r herwydd yn gynamserol i ddatgan amcangyfrif o'r gwir gwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol
- Rhai cyllidebau'n dangos arwyddion cychwynnol o bwysau
- Nifer o risgiau tebygol i gyllidebau'r Cyngor – pwysau tymhorol (Gaeaf); tlodi a heriau costau byw; setliad cyflogau terfynol staff; galw cynyddol ar wasanaethau i unigolion bregus; costau ynni.

**Allbynnau:**

i. Dealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1: 2023/24
ii. Adnabod y prif feysydd risg sy'n debygol o greu pwysau ariannol yn ystod 2023/24
iii. Perchnogaeth gan Aelodau Etholedig o'r pwysau ar gyllidebau'r Cyngor.

**2.5 Pwysau Ariannol: Gwasanaethau Digartrefedd**

Yng nghyfarfod diwethaf y Panel[6] ac ar gais y Panel edrychwyd mewn manylder ar oblygiadau ariannol y galw cynyddol am wasanaethau digartrefedd. Daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- Pwysau'n parhau i gynyddu ar gyllidau'r Cyngor gyda'r amcangyfrif o gyfanswm yr unigolion yn derbyn gwasanaethau yn debygol o barhau i gynyddu
- Risgiau'n bodoli yn lleol yn sgil dibyniaeth ar arian grant gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwasanaethau
- Ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid ddaw i'r dyfodol drwy grantiau Llywodraeth Cymru sy'n gwneud cynllunio ymlaen yn hyderus ac effeithiol yn her
- Mesurau lliniaru ar waith gan y Gwasanaeth Tai i leihau costau.

**Allbwn:**

Dealltwriaeth o'r pwysau a'r risgiau ynghlwm wrth y galw cynyddu ar wasanaethau digartrefedd.

**2.6 Rhaglen waith y Panel Sgriwtini am y cyfnod Medi 2023 → Ebrill, 2024**

Cafwyd adolygiad pellach o'r blaen raglen waith gyda'r amcan o sicrhau rhaglen waith gadarn i gefnogi cyfraniad y Panel at drefniadau llywodraethiant y Cyngor.

[6] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid ar 7 Medi, 2023

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Panel Sgriwtini[7] yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

i. Monitro Cyllidebau Ch2: 2023/24 – Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai
ii. Pwysau ar gyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion – mesurau lliniaru
iii. Ôl-drafod – strategaeth gwestiynu
iv. Blaen raglen waith – adolygiad.

**6. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED**

Dim mater i'w uwchgyfeirio gan y Panel.

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ddim yn berthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ddim yn berthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ddim yn berthnasol |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ddim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Geraint Bebb**

[7] Panel Sgriwtini Cyllid, 26 Hydref, 2023

**Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid**
**Dyddiad: 29/08/2023**
**(diwygiwyd 11/09/2023)**

**Atodiad 1**

**AELODAETH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

| Aelod | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Cyng Dylan Rees (Is-gadair) | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| Cyng Ken Taylor | |
| Cyng Paul Ellis | |
| | |
| Cyng Geraint Bebb (Cadair) | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| Cyng Dyfed Wyn Jones | |
| Sedd wag | |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 19/09/2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Perfformiad / Llesiant Blynyddol 22/23 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad blynyddol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Carwyn E Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | n/a |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor argymell:

- i'r Pwyllgor Gwaith cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad / Llesiant 2022/23 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac iddynt argymell i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod Hydref 26ain, 2023 y dylid ei fabwysiadu.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae'r Adroddiad Perfformiad / Llesiant Blynyddol wedi'i ddrafftio i hysbysu ei ddarllenydd o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno. Mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor wedi gwireddu disgwyliadau'r Cynllun Trosiannol (CT). Mae'r CT yn gynllun gwaith manwl sy'n cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Cyngor fel y nodwyd yng Nghynllun y Cyngor 2017-22

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| |
|---|
| **3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:<br>• y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<br>• y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)<br>• y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| 1. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn trafod nifer o gyflawniadau yn ystod 2022/23. Pa drefniadau sydd ar y gweill i godi ymwybyddiaeth?<br>2. Roedd 53% o'n dangosyddion perfformiad allweddol naill ai'n cynnal neu gwella ar eu perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Pa fesurau a roddwyd ar waith i gael yr effaith gadarnhaol hon ar berfformiad a pha wersi y gellir eu dysgu, i'w rhannu ar draws y sefydliad?<br>3. Sut mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar allu'r Cyngor i wasanaethu pobl Ynys Môn?<br>4. Gan ddefnyddi'r wybodaeth o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23, pa feysydd perfformiad penodol y dylid eu blaenoriaethu ar sail risg yn ystod 2023/24? |

| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
|---|
| **5.1** Yn unol a'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad (Lleisiant) Blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor.<br><br>**5.2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad / Lleisiant sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2022/23.<br><br>**5.3** Mae'n ddiweddariad ar gynnydd y cyngor yn erbyn y Cynllun Trosiannol 22/23. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amh. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Amh. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amh. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Gall oblygiadau ariannol cyrhaeddiad yn erbyn amcanion ei gyfarch yn natganiad cyfrifon y Cyngor 2022/23. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23 (drafft) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| • Cynllun y Cyngor 2017-2022<br>• Cynllun Trosiannol 2022-23 |

# Adroddiad Perfformiad / Lleisiant Blynyddol 2022/23

**Paratowyd gan** – Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi** – Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

DRAFT

# Cyflwyniad

Croeso i'n Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2022/23 sy'n rhoi trosolwg o'r hyn y mae'r Cyngor, ar y cyd â'n cymunedau gwydn, wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fel Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor, rydym yn falch o gyflwyno'r llwyddiannau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ar ein hynys yn ystod y flwyddyn.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gorfod ymdopi â heriau yn sgil yr argyfwng costau byw a hynny trwy gydweithio a chefnogi'n gilydd. Mae ein cymunedau wedi dangos grym cydweithio, trwy gynnig help i gymdogion a thrigolion pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r holl waith yr ydym ni wedi'i gyflawni er mwyn sicrhau cynnydd, yn cynnwys adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd cadarnhaol i fentrau cynaliadwy a chynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol ledled yr ynys. Rydym hefyd wedi helpu'r sector ymwelwyr a lletygarwch i wneud y mwyaf o boblogrwydd yr Ynys gan amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd. Mae'n hymrwymiad ar y cyd i sicrhau twf a datblygiad yn amlwg ym mhob prosiect yr ydym ni wedi'i gyflawni.

Wrth edrych tua'r dyfodol mae'r llwybr o'm blaenau'n llawn gobaith a photensial. Bydd Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028, sydd newydd gael ei lansio, wrth wraidd ein holl benderfyniadau yn y dyfodol; bydd yn darparu fframwaith fel y gallwn gynllunio a bwrw 'mlaen â'n blaenoriaethau; a monitro perfformiad a chynnydd. Crëwyd y Cynllun â chyfaniad trigolion, busnesau, rhanddeiliaid, a phartneriaid. Yr hyn sydd wrth ei wraidd ydi'n hawch i barhau i weithio gyda hwy er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gorau posib ar gael, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

I gloi, hoffem ddiolch i'n staff ymroddedig am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Ac i'r gymuned, gan mai'ch cadernid a'ch caredigrwydd chi sy'n ein gwthio ni i gyrraedd y nod gyda'n gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn dyst i'r hyn y gallwn ni ei gyflawni law yn llaw.



**Llinos Medi**

**Arweinydd y Cyngor**



**Dylan Williams**


**Prif Weithredwr**





DRAFT

# Uchafbwyntiau Allweddol

Mae rhai o’r uchafbwyntiau allweddol ar gyfer perfformiad eleni i’w gweld isod. I gael gwybodaeth am sut rydym yn monitro perfformiad gweler [ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx](ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx)



## Datblygiad yn erbyn ffrydiau gwaith y Cynllun Trosiannol

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau'r Cynllun Trosiannol yn cael eu trafod yn yr adran nesaf o'r adroddiad.

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

### A. Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 1. Adeiladu 6 uned fusnes newydd ym **Mharc Busnes Bryn Cefni (Tregarnedd), Llangefni** a pharatoi 6 plot ychwanegol i'w gwerthu ar y farchnad agored.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes newydd ym **Mhenrhos yng Nghaergybi** (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) | Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adeiladu 6 uned fusnes newydd ym Mharc Busnes Bryn Cefni yn Llangefni.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes ychwanegol ym Mhenrhos, Caergybi, ond ychydig o oedi cyn eu cwblhau oherwydd newidiadau mewn ymrwymiadau diogelwch statudol. | |
| 2. Cryfhau rôl **Caergybi a'r Porthladd** fel 'Porth' Rhyngwladol Allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau, yn cynnwys<br><br>a. Atgyweirio'r Morglawdd<br>b. Datblygu'r Porthladd yn cynnwys adennill tir<br>c. Hwb Hydrogen Caergybi<br>d. Gwelliannau i'r orsaf | Rydym wedi cryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' Rhyngwladol allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethom ddylanwadu ar y broses i sicrhau cyllid o £20m ym mis Mawrth 2023 gan Lywodraeth y DU i atgyweirio Morglawdd Caergybi.<br><br>Mae cais Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus. Datblygwyd y cais drwy bartneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line. Mae gwaith ar y gweill i baratoi Achos Busnes Amlinellol.<br><br>Mae'r statws Porthladd Rhydd yn gyfle i sicrhau newid gwirioneddol er mwyn trawsnewid cymunedau ledled Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach.<br><br>Mae'r cynlluniau ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi wedi cael eu cymeradwyo. Dyma fydd yr hwb cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd y prosiect yn cael ei | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| | sefydlu ym Mharc Cybi, Caergybi gan y fenter gymdeithasol Menter Môn, ochr yn ochr â'r Cyngor.<br><br>Mae'r Cyngor wedi derbyn £2.9 miliwn o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, drwy Croeso Cymru, i gyflawni cynlluniau ar gyfer ymwelwyr yn cynnwys:<br><br>• gwella arwyddion a chynllunio llwybrau<br>• gwella'r Gaer Rufeinig sy'n atyniad treftadaeth allweddol<br>• adnewyddu'r toiledau cyhoeddus yn Sgwâr Swift<br>• gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr ym Marc Gwledig Morglawdd Caergybi<br>• darparu cyllid cyfatebol i gynlluniau gwella Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi.<br><br>Gweler pwynt 8 am fwy | Gwyrdd |
| 3. Cyflawni'r prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu **Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**, yn cynnwys:<br>a. Cronfa Grant Busnesau Bach a Grwpiau Cymunedol Gogledd Ynys Môn<br>b. Strategaeth Arwyddion **Porth Amlwch**<br>c. Cyflwyno cynnig cysyniad ar gyfer tir parc y Gymdeithas (a adwaenid yn y gorffennol fel tir Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym **Mhorth Amlwch**) | Mae Cynllun Gweithredu Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn wedi darparu gwerth £50,000 o grantiau bach i 12 o sefydliadau yng Ngogledd Ynys Môn.<br><br>Mae'r Strategaeth Arwyddion i wella arwyddion ym Mhorth Amlwch wedi'i gwblhau a byddant yn cael eu gosod yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.<br><br>Mae £50,000 o gyllid wedi cael ei sicrhau drwy Barth Menter Ynys Môn i ddatblygu cynlluniau ar gyfer unedau busnes yn Stryd Mona, Amlwch. Bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno yn 2023/24.<br><br>Mae cynnig parcdir, mewn cydweithrediad agos â'r Gymdeithas, wedi'i baratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023 | Melyn |

DRAFT

| **Camau Gweithredu Allweddol** | ***Yr hyn a wnaethom yn 2022/23*** | ***CAG*** |
|---|---|---|
| d. Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu unedau busnes newydd<br>e. Hwb newydd MonCF Gogledd Ynys Môn yng nghanol tref **Amlwch** | Defnyddiwyd y grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru a grant economaidd-gymdeithasol yr NDA i agor hwb MônCF ar gyfer Gogledd yr Ynys yng nghanol tref Amlwch ym mis Mehefin 2022. | |
| 4. Cefnogi **Bargen Twf Gogledd Cymru** (prosbectws adfer) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein economi yn y tymor byr | Mae'r Cyngor wedi cefnogi Bargen Twf Gogledd Cymru (prosbectws adfer yn dilyn covid) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein heconomi.<br><br>Mae rhai o'r prosiectau sydd ar y gweill yn cynnwys:<br>• Porth Caergybi<br>• Cydnerth (Morlais), Caergybi<br>• Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni), a Chanolfan Ynni Carbon Isel Prifysgol Bangor ac M-SParc<br>• Hwb Economi Wledig Glynllifon, Gwynedd<br>• Parc Bryn Cegin, Gwynedd<br>• Adweithyddion Bach neu Ddatblygedig Trawsfynydd, Gwynedd | |
| 5. Sefydlu **Awdurdod Iechyd Porthladd** i gyflawni cyfrifoldebau a gwiriadau rheoli ffiniau | Cafodd cynlluniau'r Cyngor i sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd eu gohirio tan 2023/24 wedi i Lywodraeth y DU gadarnhau ei bod yn gohirio ei chynlluniau i gyflwyno gwiriadau rheoli ffiniau newydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod trefniadau lleol yn gadarn a fforddiadwy.<br><br>Nydd trafodaethau pellach gyda Swyddfa'r Cabinet i'w cynnal ynghylch y Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) gyda chyhoeddiad terfynol wedi'i glustnodi tua diwedd Haf 2023. | |
| 6. Parhau i gyflawni adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwneud **Canol Trefi'n** llefydd mwy bywiog a hyfyw | Mae wifi cyhoeddus ac offer mesur nifer ymwelwyr wedi cael eu gosod yn Llangefni, Porthaethwy, Porth Amlwch, Rhosneigr a Thraeth Bychan. | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
| --- | --- | --- |
| a. Archwilio canol trefi yn Ynys Môn i ddod o hyd i welliannau posib<br>b. Mynd i'r afael ag adeiladu gwag a phroblemus<br>c. Datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed | Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael ag adeiladau gwag a phroblemus drwy sicrhau £250k o gyllid drwy'r Cynllun Grant Prosesu a Marchnata yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd cyllido eraill gan Cadw. Mae'r Grant Prosesu a Marchnata wedi cefnogi cyfleusterau yng Nghanolfan Glanhwfa a Hwb Mencap, Llangefni.<br><br>Mae'r Cyngor wedi datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith ar 20 o gynlluniau a gafodd eu cyllido drwy Bartneriaeth Tirwedd Ynys Cybi. Cafodd £25,000 hefyd ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ddarparu rhandiroedd newydd yn Llanfairpwll a diweddaru'r rhandiroedd yng Nghaergybi. | |
| 7. Parhau i symud y **Rhaglen Ynys Ynni** yn ei blaen<br>a. Ymgysylltu a dylanwadu ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa<br>b. Gweithio gyda datblygwyr prosiectau mawr i sicrhau bod cynigion yn cyflawni buddion lleol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol<br>c. Adolygu a diweddaru pwrpas ac amcanion rhaglenni fel eu bod wedi eu halinio'n well â'r gofynion ac ymrwymiadau ym mholisi hinsawdd ac ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i ymgysylltu â datblygwyr i roi cyngor a dylanwadu ar gynigion datblygu ynni drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn er mwyn sicrhau ffurf gynaliadwy o ddatblygiad gyda'r effeithiau'n cael eu dileu a'r buddion yn cael eu huchafu.<br><br>Parhawyd i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl ddatblygwyr a rhanddeiliaid i gynghori a dylanwadu ar fathau cynaliadwy o ddatblygiad gan gynnwys cymryd rhan lawn yn y broses caniatâd statudol lle mai'r Cyngor yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Awdurdod Lleol i'r prosiect. Mae ymgysylltu wedi cynnwys y prosiectau canlynol:<br><br>• Safle niwclear newydd yn Wylfa<br>• Morlais<br>• Fferm Solar Traffwll<br>• Hwb Hydrogen Caergybi<br>• Fferm Solar Porth Wen<br>• Awel y Môr<br>• Fferm Solar Môn<br>• System Storio Ynni Batri Carrog<br>• Fferm Wynt Mona<br>• Datgomisiynu Gorsaf Bwer Magnox Wylfa | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| | • Fferm Solar Alaw Môn<br><br>O ran datblygiad niwclear newydd posibl ar safle dyranedig Wylfa, mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU, Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i weithio gyda datblygwyr i sicrhau bod eu cynigion yn darparu buddion lleol yn unol â Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol y Cyngor.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o'r Rhaglen Ynys Ynni tua diwedd 2021. Cadarnhaodd yr adolygiad na fu'r rhaglen erioed yn bwysicach na pherthnasol i alluogi prosiectau a chyfleoedd i gael eu huchafu, adlinio blaenoriaethau, parchu unigrywiaeth amgylchedd yr ynys ac i hybu twf economaidd ar draws yr Ynys.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi ac yn parhau i gefnogi gyda'r cais statws Porthladd Rhydd llwyddiannus. | |
| 8. Datblygu a mynd ar drywydd cymorth drwy **Gronfa Ffyniant Bro ac Adfer Cymunedau Llywodraeth y DU** | Cafodd cais am swm sylweddol o gyllid i helpu i atal dirywiad pellach ac adfer canol tref Caergybi ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU.<br><br>Bydd y cais 'Caergybi: Trawsnewid trwy ddiwylliant a threftadaeth' yn helpu i gynyddu balchder lle i drigolion. Bydd yn helpu i drawsnewid y dref drwy sicrhau buddsoddiad gwerth £22.5m, yn cynnwys £17m drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, a darparu buddion gwerth dros £54m i'r gymuned leol.<br><br>Mae'r cais yn cynnwys pecyn o brosiectau cyffrous i -<br>• gynyddu cyflogaeth;<br>• gwella'r hyn sydd ar gael yng nghanol y dref a phrofiad ymwelwyr;<br>• cynyddu ymwelwyr a gwariant;<br>• darparu gofod llawr modern i gwrdd ag anghenion busnesau;<br>• cynyddu mynediad at y celfyddydau, diwylliant a hamdden. | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 9. Gweithio gyda **busnesau lleol** i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gontractau'r Cyngor drwy broses gaffael ddiwygiedig | Mae'r Cyngor wedi ac yn parhau i weithio gyda busnesau lleol, er mwyn eu galluogi i gymryd mantais o'r cyfleoedd sydd ar gael gan y Cyngor drwy gontractau. Mae'r gwaith yn cael ei gyflawni trwy hysbysiadau ar GwerthwchiGymru a digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr er mwyn hybu'r posibiliadau a chyfleodd ar Ynys Môn. | |
| 10. Parhau i ddarparu **grantiau Llywodraeth Cymru** i fusnesau | Nid chafodd unrhyw grantiau newydd i fusnesau eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.<br><br>Disgwylir grantiau newydd yn 2023/24 yn cynnwys grantiau i fusnesau bach drwy'r gronfa UK-SPF a grantiau 'cymunedau mentrus' newydd o dan y cynllun Arfor 2 sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. | |

## B. Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd



| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Cynllun **Rheoli Cyrchfan** ac **AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol)** newydd | Datblygwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan ac AHNE drafft yn ystod y flwyddyn. Ymgynghorwyd ar y cynlluniau hyn yn gyhoeddus yn ystod chwarter cyntaf 2023/24. Bydd y drafftiau terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod 2023/24. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2. Buddsoddi i wella ansawdd **Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Nant y Pandy** a'r seilwaith morol er budd a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr | Mae canolfan ymwelwyr newydd wedi agor ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi fel rhan o gynllun Cymru gyfan i greu a gwella cyfleusterau i ymwelwyr. Mae'r ganolfan newydd yn rhan o raglen fuddsoddi ehangach i gynyddu apêl Caergybi a gwella'r profiad i ymwelwyr, yn sgil y nifer uchaf erioed o ymweliadau gan longau pleser yn 2023 ac ychwaneg wedi eu trefnu ar gyfer 2024.<br><br>Yn ddiweddar plannodd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni 500 o goed derw yng ngwarchodfa natur Nant y Pandy. Nod Tîm Cefn Gwlad ac AHNE y Cyngor oedd tynnu sylw'r disgyblion at bwysigrwydd plannu coed er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu sgiliau rheoli tir ymarferol. Maent hefyd yn gobeithio y bydd y disgyblion yn teimlo bod y warchodfa natur yn perthyn iddynt hwy ar ôl plannu coed yno ac y byddant yn eu gwarchod ac yn gwneud yn siŵr bod y lle'n cael ei barchu yn y dyfodol. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r llwybrau pren yn ogystal gydag ychwaneg o gynlluniau gwella ar y gweill ar gyfer 2023/24. | |
| 3. Croesawu **40+ o longau pleser** i Ynys Môn / Gogledd Cymru yn ystod y tymor yn 2022 | Croesawyd 42 o longau pleser yn ystod yn 2022 gydag ymwelwyr o bob rhan o'r byd yn ymweld â'r ynys ac ardal gogledd orllewin Cymru. | |
| 4. Cyflwyno mân welliannau i'r seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd i **wella profiad trigolion ac ymwelwyr**, yn ogystal â dylanwadu'n bositif ar ymddygiad ymwelwyr | Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn wedi'i ohirio tan 2023/24, gan bod rhaid adolygu ac asesu anghenion presennol y gwasanaeth, er mwyn gallu ddefnyddio'r cyllid yn llawn. | |
| 5. Sefydlu rhaglen waith **Beicio Hamdden a Theithio Llesol** ar gyfer Ynys Môn | Mae gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau cerdded a seiclo ar gyfer eu hardal leol, sef Mapiau Rhwydweithiau Teithiau Llesol. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r mapiau hyn wedi cael eu dylunio i ddangos:<br>1. Llwybrau presennol – llwybrau cerdded a seiclo sy'n bodoli eisoes<br>2. Llwybrau'r dyfodol – llwybrau newydd y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu creu yn y dyfodol<br><br>Cafodd ein Map ni ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 ac mae'n nodi dyheadau'r Cyngor ar gyfer gwella ei lwybrau teithio llesol yn yr wyth anheddiad canlynol ar yr ynys:<br>• Llangefni<br>• Llanfairpwll<br>• Y Fali<br>• Benllech<br>• Porthaethwy<br>• Amlwch<br>• Caergybi<br>• Gaerwen | |
| 6. Newid y ffordd yr ydym ni'n gweithio gyda thrigolion a chymunedau trwy godi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn **Cynllunio Lle** er mwyn i gymunedau fod yn fwy gwydn | Mae'r rhaglen Cynllunio Lle yn dal i gael ei darparu gan y Cyngor mewn partneriaeth â Medrwn Môn .<br><br>Mae'r rhaglen yn gweithio gyda chymunedau lleol i greu map cynhwysfawr o asedau a hyd yma mae 7 cynghrair gymunedol yn gweithio gyda chyrff statudol i nodi anghenion cymunedau a blaenoriaethu lle y dylid targedu gwariant.<br><br>Mae'r cynghreiriau'n dod â grwpiau cymunedol, unigolion, gwirfoddolwyr, cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol ac unrhyw un sydd â diddordeb ynghyd er mwyn i'r cymunedau y maent yn byw neu weithio ynddynt fod yn fwy annibynnol a gwydn. | |

DRAFT

## C. Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | CAG |
|---|---|---|
| 1. Sicrhau ein bod yn lleihau'r angen am **lety argyfwng a dros dro** trwy ddod o hyd i **gartrefi parhaol** i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref.<br><br>Yn ystod 2022/23, cafodd tua 130 o bobl eu symud o unedau brys a dros dro i lety preifat neu gymdeithasol. | |
| 2. Paratoi a mabwysiadu **Cynllun Newid Hinsawdd** i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau | Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 gan ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.<br><br>O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cytuno ar 'Gynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025' sy'n amlinellu ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a sut mae'n bwriadu newid i fod yn sefydliad sero net.<br><br>Mae'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol wedi goruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynllun yn ystod y flwyddyn. | |
| 3. Adeiladu 83 o **gartrefi ynni effeithiol newydd** â graddfa perfformiad ynni A yn unol â'n Strategaeth Carbon Isel i gwrdd â'r galw'n lleol a sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau cael cyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy ar draws pob math o ddeiliadaeth i gwrdd â'u hanghenion tai | Mae'r Cyngor wedi adeiladu 38 o gartrefi effeithlon o ran ynni yn ddiweddar. Mae safleoedd hen ysgolion ym Maes yr Ysgol, Caergybi, Ysgol Llaingoch, Caergybi ac Ysgol Llanfachraeth wedi cael eu troi'n gartrefi newydd a modern.<br><br>Mae'r eiddo hyn wedi cael eu dyrannu i denantiaid gan ddefnyddio'r polisi tai cyffredinol a chofrestr tai fforddiadwy Tai Teg, sy'n rhoi blaenoriaeth i drigolion lleol.<br><br>Mae 10 eiddo newydd hefyd yn cael eu hadeiladu yn Lôn Lwyd, Pentraeth ynghyd â 6 eiddo newydd ar safle hen glwb cymdeithasol Biwmares.<br><br>Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu tai newydd yn y lleoliadau canlynol–<br><br>• Hen safle Ysgol Niwbwrch yn Niwbwrch (14 o gartrefi) | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | CAG |
|---|---|---|
| | • Hen safle Ysgol Thomas Ellis yng Nghaergybi (15 o gartrefi)<br>• Kings Road, Caergybi (7 p gartrefi)<br>• Hen safle Plas Penlan, Llangefni (12 o gartrefi)<br>• Gwêl y Llan yn Llandegfan (25 o gartrefi). | |
| 4. Datblygu **Cartrefi Clyd** Ynys Môn ymhellach yn **Rhosybol, Caergybi a Llangristiolus** gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth **gofal seibiant a Gofal Dydd i blant gydag anableddau** | Mae'r fenter Cartrefi Clyd yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi amser a sylw i blant yn unigol. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas werthfawr gyda hwy a sicrhau eu bod yn cael profiadau bywyd cadarnhaol fel y gallant ddatblygu i fod yn oedolion emosiynol iach.<br><br>Mae'r profiadau bywyd cadarnhaol hyn hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod plant yn dod yn rhan o'u cymuned leol ac yn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn yr un modd ag unrhyw blentyn arall.<br><br>Fe enillodd y fenter Cartrefi Clyd Wobr Plant Mewn Gofal yng Ngwobrau Plant a Phobl Ifanc Nawr yn 2022 am ddarparu cartrefi diogel, gofalgar a meithringar i blant mewn gofal.<br><br>Mae'r Wobr Plant Mewn Gofal yn cydnabod cyfraniad awdurdodau lleol neu ddarparwyr gofal er mwyn gwella'r canlyniadau i blant neu bobl ifanc sydd yn derbyn gofal mewn lleoliadau preswyl, gofal maeth neu leoliadau gofal eraill. | |
| 5. Bwrw ymlaen â'r cyfleuster **Gofal Ychwanegol** yn Ne'r ynys | Mae safle ar dir sydd ym meddiant y Cyngor ger Tyddyn Mostyn, Porthaethwy wedi'i nodi fel lleoliad addas ar gyfer datblygu darpariaeth gofal ychwanegol yn Ne'r Ynys.<br><br>Bydd y Cynllun yn helpu i fynd i'r afael â'r angen am gyfleusterau gofal ychwanegol yn yr ardal trwy ddarparu tua 40 o fflatiau ynghyd â'r posibilrwydd o 15 o ystafelloedd gofal preswyl arbenigol, yn ogystal â lle ar gyfer Tîm Adnoddau Cymunedol yn cynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol i wasanaethu de'r ynys.<br><br>Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi archwilio'r safle ac mae wrthi'n paratoi'r dogfennau cynllunio ar hyn o bryd.<br><br>Bydd cais cynllunio'n cael ei gyflwyno yn 2023/24. | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 6. Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Gofal Dydd ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | Mae gwaith ar y gweill i ffurfioli'r ddarpariaeth gymunedol trwy gytundebau cyson ac i gryfhau cyfleoedd cymunedol ledled yr Ynys.<br><br>Rydym wedi datblygu a gweithredu rhywfaint o gyfleoedd dydd yn fewnol yn ein cymunedau ac mae cleientiaid wedi bod yn mynychu'r cyfleoedd newydd hyn. Mae gwaith pellach ar y gweill yn 2023/24. | |
| 7. Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Llety Cymorth ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | Mae adolygiad o'r ddarpariaeth byw â chymorth ar y gweill; fodd bynnag, mae'r prosiect yn ei ddyddiau cynnar. Mae gwaith pellach ar y gweill yn . 2023/24. | |
| 8. Bwrw ymlaen â'r cyfleusterau **ysgol gynradd newydd yn Llangefni** | Agorwyd safle newydd Ysgol Corn Hir ym mis Ebrill 2023.<br><br>Mae'r prosiect gwerth £10m a gafodd ei adeiladu gan Wynne Construction yn cynnwys y cyfleusterau ac adnoddau diweddaraf mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd chwarae a dysgu tu allan modern gyda chyfleusterau da.<br><br>Cynhaliwyd seremoni torri'r dywarchen ym mis Ionawr 2023 i nodi dechrau'r gwaith ar yr estyniad Carbon Sero Net yn Ysgol y Graig, Llangefni.<br><br>Bydd yr uned Cyfnod Sylfaen newydd yn costio oddeutu £10.5 miliwn.<br><br>Bydd y prosiectau hyn yn cynyddu capasiti yn ardal Llangefni i gwrdd â'r galw cynyddol am addysg gynradd yn yr ardal. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu hariannu'n rhannol gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. | |

Gwyrdd = Cwblhawyd, Melyn = Yn unol â'r cynllun, Oren = Ar ei hôl hi, ond mae camau lliniaru a nodwyd yn golygu bod modd dal i fyny, Coch = Wedi methu yn erbyn yr amserlen. Angen arweiniad gan y Bwrdd Rhaglen neu'r Tîm Arweinyddiaeth ynghylch y ffordd ymlaen





DRAFT

## Canlyniadau Rheoli Perfformiad


Mae monitro perfformiad y DPA yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor fel y mae allbynnau'r gwaith cysylltiedig uchod:

- Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae dadansoddiad o berfformiad ar gyfer pob Amcan Llesiant i'w weld isod –

## Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir

Mae'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'n hamcan llesiant, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, yn perfformio'n dda ac mae pob dangosydd naill ai'n wyrdd neu'n felyn yn erbyn eu targedau.




DRAFT

**Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**




Roedd 100% o ddisgyblion wedi cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd 4). Mae hyn yn galonogol ac mae'n bodloni disgwyliadau Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.





Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd

Mae 80 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 50 (dangosydd 11). Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 80 yn llai o dai gwag yn ein cymunedau

DRAFT




Mae 72% o gleientiaid a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen NERS wedi cwblhau'r cwrs, ac roedd 78% yn credu fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd



Cafwyd 514k ymweliad â Chanolfannau Hamdden yn ystod y flwyddyn, sy'n gynnydd o 151k yn 2021/22, a dyma'r swm uchaf ers 2018/19. Mae hyn yn dangos fod darparu cyfleusterau a gweithgareddau gwell i drigolion yn ffafriol mewn diwydiant sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol.

## Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Mae'r perfformiad yn erbyn y dangosyddion Amcan Llesiant 2 yn perfformio'n dda unwaith eto. Mae 11 dangosydd yn Wyrdd (73%) ac mae 2 dangosydd (13%) yn Felyn yn erbyn targedau ar gyfer y flwyddyn





**Enghreifftiau o rai o'r perfformiadau da a welwyd yn ystod y flwyddyn:**


Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.

| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 91.69% | 64.71% | 16.74 | 98.1% |

Mae pob dangosydd o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (dangosyddion 20 – 25), ac eithrio un, yn uwch, neu o fewn 5% o'r targedau ar gyfer y flwyddyn. Roedd nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn berfformiad da o 93.83% o gymharu â blynyddoedd blaenorol

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | 86.75% | Melyn |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | 6.15% | Gwyrdd |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | 14.35% | Gwyrdd |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 98.31% | Gwyrdd |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 93.83% | Gwyrdd |




Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi perfformio'n dda hefyd gyda'r ddau yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae'r cyllid a dargedwyd ar gyfer digartrefedd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol, gyda 98.45% o gartrefi gyda phlant yn cael eu harbed eleni, o gymharu â'r perfformiad blaenorol

Fodd bynnag, rydym yn nodi bod dau o'r dangosyddion wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn yn erbyn amcan llesiant 2, gyda'r ddau yn Goch yn erbyn eu targedau.


DRAFT




Mae'r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn – yn Goch, gyda pherfformiad o 303 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod.

Mae'r perfformiad yn ddirywiad o'r 287 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, er ei fod yn well na'r 318 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2021/22.

Mae'r dangosydd hwn yn cyfrifo'r plant hynny sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr diogelu plant o fewn y deuddeg mis diwethaf ar sail treigl. Mae dangosydd amgen i fesur yr amser cyfartalog mae'r holl blant yn treulio ar y gofrestr diogelu plant (CPR) yn dangos perfformiad iach o 166 diwrnod. Bydd y gwaith o fonitro'r dangosydd hwn yn gwella perfformiad yn erbyn dangosydd 23 yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y plant ar y CPR ar y gofrestr tra bo penderfyniad yn cael ei wneud yn unig.



Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – sydd yn Goch gyda pherfformiad o 193 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 182 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, ac yn ostyngiad ar berfformiad blynyddoedd blaenorol.




Mae'r rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys:


- Anawsterau cael mynediad i rai eiddo oherwydd pryderon cleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws.
- Anawsterau dod o hyd i gontractwyr i wneud y gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 chontractwr o'r Ynys sy'n gosod yr addasiadau.

Mae'n debygol y bydd angen cynyddu'r diwrnodau targed yn 2023/24 o ganlyniad i'r anawsterau hyn. Bydd y Polisi GCA yn cael ei adolygu yn ystod Ch1 2023/24, fydd yn cynnwys llunio cytundeb lefel gwasanaeth a chytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer darparu addasiadau i'r GCA.

DRAFT


# Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae perfformiad dangosyddion i fonitro ein llesiant Amcan 3 wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed, neu o fewn 5% iddynt ar gyfer y flwyddyn.





**Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**





Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o fewn amser yn Wyrdd yn erbyn targed o 91%. Dyma'r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (79% yn 2021/22, 79% yn 2020/21 a 90% yn 2019/20).






canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod

Mae canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod hefyd wedi gwella (85%) o ran perfformiad, o gymharu â blynyddoedd blaenorol (84% yn 2021/22, 74% yn 2020/21 a 74% yn 2019/20). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos fod y gwelliannau a weithredwyd gan staff y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gwneud gwahaniaeth i berfformiad.

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | 96% | Gwyrdd |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | 63.47% | Melyn |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 1 | Gwyrdd |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | 207kg | Gwyrdd |


Mae nifer o ddangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 96% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân rhag unrhyw wastraff, a dyma'r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (95.5% yn 2021/22, 92% yn 2020/21 a 93.79% yn 2019/20).





Mae'r tri dangosydd priffyrdd, sy'n gysylltiedig ag arolygon cyflwr ffyrdd A, B a C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40), yn Wyrdd yn erbyn targedau ac wedi gwella o gymharu â 2021/22. Gellir gweld y gwelliant mwyaf yng nghyflwr ffyrdd A lle mai dim ond 2.6% oedd mewn cyflwr gwael yn 2022/23 o gymharu â 3% yn 2020/21 a 4.6% yn 2019/20. Roedd y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd, a oedd yn gyfuniad o gyllid cyfalaf a grantiau Llywodraeth Cymru, yn fanteisiol iawn i'r gwelliannau hyn.

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 2.6% | Gwyrdd |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 2.6% | Gwyrdd |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 7.6% | Gwyrdd |




Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn ystod y flwyddyn yw y canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 47% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn ddirywiad ar y perfformiad a welwyd yn 2021/22 (50%).

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fechan o apeliadau cynllunio, a gall y nifer amrywio'n fawr o un chwarter i'r llall. Gwrthodwyd tri o'r pump apêl yn ystod y Ch4 gan olygu fod naw allan o'r deunaw o apeliadau wedi'u gwrthod yn ystod y flwyddyn.


Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio yn 'gadarn' ac yn ddilys, fodd bynnag nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniad apêl. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar geisiadau tebyg i nodi a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n golygu bod angen dehongli ein polisïau'n wahanol.

DRAFT

## Dangosyddion Iechyd Corfforaethol

Wrth ddadansoddi'r dangosyddion iechyd corfforaethol (Pobl / Ariannol / Gofal Cwsmer) am y flwyddyn, braf yw cael nodi bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion (80%), y mae eu targedau wedi'u monitro, yn yr adran hon wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn CAG). Mae rhai o'r uchafbwyntiau wedi'u nodi isod.

- Mae'r Cyngor wedi cyrraedd melyn yn erbyn ei ddangosydd perfformiad allweddol presenoldeb staff, gyda 9.15 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl), yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'u colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos ymrwymiad staff.





- Nid oedd y dangosyddion a gafodd eu monitro ar gyfer yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn tynnu sylw at unrhyw bryder sylweddol, gyda'r dangosydd yn perfformio'n dda yn erbyn targedau ar y cyfan.

- Roedd **cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)** yn Goch, gyda pherfformiad o 70% yn erbyn targed o 80%. Trafodwyd 19 o'r 27 o gwynion a dderbyniwyd gyda'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith, ac roedd 6 o'r 8 ymateb ysgrifenedig hwyr wedi'u cytuno gyda'r achwynydd cyn iddynt gael eu nodi fel ymatebion hwyr, fel y nodir yn y protocol cwynion. Fodd bynnag, mae perfformiad o 70% yn gynnydd bychan ar y 66%, fel y gwelwyd ar ddiwedd 2021/22.

DRAFT

- Mae'r **% yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen** yn dangos fod 72% o'r ymatebion o fewn yr amserlen, yn erbyn targed o 80%. Yr her o 2023/24 ymlaen yw bod y targed yn codi i o leiaf 90%, ac argymhellir fod angen gwneud gwaith pellach i adnabod y mathau o geisiadau sy'n hwyr, pam bod cynnydd yn y ceisiadau, yn enwedig yn ystod Ch4, a lle ellir gwella ymatebion fel bo'r Cyngor mewn sefyllfa well i gyrraedd y targed.




- Mae'r **adran rheolaeth ariannol** yn rhagweld tanwariant o £1.212m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Croesewir y canlyniad hwn, ac mae'n gwella sefyllfa ariannol y Cyngor. 3.6 Mae tanwariant net wedi cyfrannu at gynnydd ym Malansau Cyffredinol y Cyngor, ac mae swm sylfaenol gwerth £10.2m ar gael, sydd £1.4m yn uwch na'r lleiafswm gwerth a argymhellwyd wrth symud ymlaen (5% o gyllideb refeniw net 2023/24).Mae'r sefyllfa ariannol alldro yn dangos galw parhaus am wasanaethau yn enwedig ym meysydd Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. O ystyried yr argyfwng costau byw presennol, rhagwelir y bydd y pwysau hyn yn parhau yn 2023/24.

- Rhagwelir tanwariant o £13.477m ar y **Rhaglen Gyfalaf** yn 2022/23 a gallai'r swm lithro i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24.

- Mae'r cyfrifon refeniw a chyfalaf yn cael eu hystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid, a bydd unrhyw danwariant yn destun craffu trylwyr cyn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sail chwarterol.

**Mae'r perfformiad cyffredinol o fewn yr adran hon yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli pobl, cyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol. Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion o'r safbwynt hwnnw, yn portreadu perfformiad boddhaol hefyd.**

DRAFT

Tudalen 61

## Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw

Pan gytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Trosiannol yn ôl ym mis Rhagfyr 2021, roeddem ynghanol pandemig byd-eang. Roedd y Cynllun Trosiannol yn pennu'r paramedrau gweithredu ar gyfer swyddogion er mwyn iddynt allu cyflawni nifer o amcanion strategol allweddol wrth i'r ynys gael ei gwynt ati yn syth wedi'r pandemig.

Prin y gwyddem y byddai costau byw yn cynyddu'n sylweddol i bawb ac y byddai chwyddiant yn cynyddu i 11% ym mis Hydref 2022. Mae nifer o resymau am y cynnydd, fodd bynnag mae hanfodion pob dydd fel biliau bwyd a thanwydd aelwydydd wedi cynyddu'n gyflymach na'u hincwm cyfartalog. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod nifer o deuluoedd ac unigolion yn cael trafferth ymdopi â'r pwysau ariannol ychwanegol ac wedi arwain at gynnydd yn y galw ar wasanaethau'r Cyngor.

Darparodd Llywodraeth Cymru arian grant i ganiatáu'r Cyngor ddarparu cymorth i breswylwyr lleol a oedd yn wynebu anawsterau oherwydd yr argyfwng costau byw. Roedd modd defnyddio'r gronfa i ddarparu cymorth grant uniongyrchol i breswylwyr lleol, i ariannu'r gost o brynu offer a fyddai'n gostwng y costau yr oedd preswylwyr yn eu hwynebu yn ystod cyfnod y gaeaf, neu i ddarparu cyllid i sefydliadau lleol a oedd hefyd yn darparu cefnogaeth i breswylwyr lleol. Darparodd Llywodraeth Cymru swm o £585,163 ac roedd modd ychwanegu unrhyw danwariant o'r cynllun Costau Byw cenedlaethol at yr arian grant a dderbyniwyd hefyd. Roedd hyn yn golygu fod cyfanswm o £735,000 o gyllid ar gael.
Dyma rywfaint o'r cymorth a ddarparwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn:

- Derbyniodd **22,500** o breswylwyr daliad o £150
- Derbyniodd Gyn Aelodau o'r Lluoedd Arfog gyllid ychwanegol drwy'r SAAFA
- Cefnogwyd **290 o Aelwydydd** a oedd yn symud o lety dros dro
- Darparwyd cyllid ychwanegol i **327 o drigolion ac aelwydydd** a oedd, ar sail asesiad gan CAB Ynys Môn a Chanolfan J.E.O'Toole, yn wynebu caledi ariannol
- Cafodd **369 o becynnau effeithlonrwydd ynni** eu dosbarthu drwy'r rhaglen Croeso Cynnes i ostwng defnydd ynni
- Daeth **3,500 o bobl** i'r 420 o Sesiynau Croeso Cynnes a gynhaliwyd ledled ein cymunedau
- Derbyniodd Banc Fwyd Ynys Môn gyllid ychwanegol i ymorol am gostau staffio yn sgil yn y cynnydd yn y galw
- Derbyniodd y Samariaid gyllid ychwanegol i helpu pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl
- Derbyniodd **400 o aelwydydd** dalebau bwyd Nadolig i'w gwario mewn siopau lleol
- Darparwyd cymorth ariannol i Kidney Care Wales a'r Gymdeithas MS Society ar gyfer trigolion â chyflyrau meddygol difrifol a oedd yn wynebu cynnydd mewn costau gwresogi / trydan
- Darparwyd cyllid i Ddigartrefedd Ynys Môn, Cynefin, Wallich Clifford a Medrwn Môn sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i drigolion fel rhan o'r grant Cymorth Tai
- Derbyniodd 2 gwmni olew lleol gyllid i gynorthwyo trigolion a oedd methu fforddio olew i wresogi eu cartref
- Darparwyd cyllid i Fenter Môn fel bod bwyd maethlon wedi'i wneud yn lleol ar gael mewn rhewgelloedd cymunedol lleol - cafodd oddeutu 4150 o brydau bwyd eu dosbarthu i 10 rhewgell gymunedol leol yn ystod 2022/23
- Darparwyd cymorth i rieni maeth i helpu gyda chostau tanwydd neu fwyd
- Derbyniodd y prosiect Bwyd Da Môn gyllid i ddarparu cymhorthdal i oddeutu **110 o drigolion**

DRAFT

## Perfformiad Cyffredinol

Mae'r Cygor wedi gwneud cynnydd da ac wedi dangos ymrwymiad mewn sawl maes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r llwyddiannau nodedig yn cynnwys:

- adeiladu unedau busnes ym Mharc Bryn Cefni a'u rhoi ar osod;
- ymdrechion i gryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' rhyngwladol;
- sicrhau cyllid ar gyfer trawsnewid canol tref Caergybi drwy'r Gronfa Ffyniant Bro;
- canolfan ymwelwyr modern ym Mharc Gwledig y Morglawdd;
- mentrau plannu coed yng Ngwarchodfa Natur Nant y Pandy er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a meithrin ymdeimlad o stiwardiaeth amgylcheddol ymysg yr ifanc;
- gwella llwybrau cerdded a seiclo drwy'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol;
- y gwaith ar y cyd rhwng y Rhaglen Llunio Lleoedd a Medrwn Môn i arddangos sut y gall cymunedau greu ardaloedd annibynnol a gwydn;
- gwobr i'r fenter Cartrefi Clyd yng Ngwobrau Plant a Phobl Ifanc Nawr 2022;
- symud tua 130 o bobl o lety argyfwng a dros dro i gartrefi preifat neu gymdeithasol yn ystod y flwyddyn;
- adeiladu 38 o gartrefi effeithlon o ran ynni newydd gyda sgôr perfformiad A;
- agor safle newydd Ysgol Corn Hir a datblygu estyniad carbon sero net yn Ysgol y Graig.

Mae canlyniadau'r cerdyn sgorio hefyd yn dangos perfformiad da gyda 71% o'r dangosyddion yn wyrdd yn erbyn eu targed a 20% o fewn 5% i'w targed ar gyfer y flwyddyn. Er gwaetha'r perfformiad iach hwn rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwaith pellach, yn enwedig mewn perthynas â'r dangosyddion sydd yn Ambr neu Goch ar gyfer y flwyddyn yn ogystal â'r dangosyddion sy'n dangos gostyngiad mewn perfformiad o un flwyddyn i'r llall (47%). Gwneir pob ymdrech yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i wella'r dangosyddion sy'n tanberfformio yn ogystal â gwella a chynnal ein perfformiad da. Byddwn yn parhau i fonitro'r ymdrechion hyn pob chwarter drwy'r Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei oruchwylion gan y Tîm Arweinyddiaeth a'i graffu gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol drwy gydol y flwyddyn.

Wrth edrych at y dyfodol, bydd Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yn ceisio adeiladu ar y gwaith da a gwblhawyd o ran gweithredu Cynllun blaenorol y Cyngor a'r Cynllun Trawsnewid. Datblygwyd y Cynllun gan ddefnyddio barn pobl leol, partneriaid, blaenoriaethau gwleidyddol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r gwaith wedi nodi'r chwe blaenoriaeth strategol allweddol a ganlyn y bydd y Cyngor yn ceisio'u datblygu dros y 5 mlynedd nesaf -

**Yr Iaith Gymraeg**
Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**
Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

**Addysg**
Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

**Tai**
Sicrhau fod gan bawb yr haw li alw rhywle'n gartref

**Economi**
Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys

**Newid Hinsawdd**
Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

DRAFT

Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn manylu ar y gwaith fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2023/24 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Caiff hyn ei wneud a'i wireddu trwy gydweithio a chydnabyddir y bydd gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor yn cael eu cyflawni hefyd.

Bydd holl staff rheng flaen a staff cefnogi'r cyngor yn rhan annatod o'r gwaith o wireddu'r ddogfen hon yn llwyddiannus a byddem yn defnyddio gwerthoedd y cyngor i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, y cynlluniau strategol a'r gwasanaethau.

**Parch / Respect**
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf in gwahaniaethau

**Gonestrwydd / Honesty**
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

**Cydweithio / Collaborate**
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn

**Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys / Champion the Council and the Island**
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi, 2023** |
| **Pwnc:** | **Enwebiad Pwyllgor – Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Enwebu un Aelod Etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams, Dirprwy Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Cyllid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol enwebu un Aelod Etholedig o blith y Pwyllgor Sgriwtini i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Cyllid**. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Amherthnasol |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Amherthnasol

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth i nifer o banelau sydd angen cynrychiolaeth Aelod Sgriwtini mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022. Cytunwyd ar enwebiadau ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn trafod aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid.

1.2 Mae cylch gorchwyl y Panel ynghlwm (**Atodiad 1**) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses enwebu.

**2. Trafodaeth**

2.1 **Aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid**

Nid yw aelodaeth y panelau'n ddarostyngedig i'r egwyddorion a'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol[1]. Mae aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 3 Aelod o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini[2]
- **Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid** – fel sylwedydd heb bleidlais
- **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Sgriwtini.

2.2 **Aelodaeth Gyfredol y Panel Sgriwtini Cyllid**

Yn sgil ystyriaeth gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini ym mis Mehefin 2022[3], mae aelodaeth gyfredol y Panel fel a ganlyn:

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (3 Aelod)**
  1. Cyng Dyfed Wyn Jones
  2. Cyng Dafydd Roberts (Cadair)
  3. Cyng Geraint Bebb

- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (3 Aelod)**
  1. Cyng Dylan Rees (Is-gadair)
  2. Cyng Paul Ellis
  3. Cyng Ken Taylor.

- Mae un sedd wag wedi codi ar y Panel Sgriwtini Cyllid o ganlyniad i ymddiswyddiad y Cynghorydd Dafydd Roberts – yn sgil ei benodiad diweddar i'r Pwyllgor Gwaith. Daw'r sedd wag hon o blith yr Aelodau

[1] Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

[3] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022 a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 21 Mehefin, 2022

| |
|---|
| Etholedig sy'n cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel.<br><br>**3. Materion ar gyfer eu hystyried**<br>3.1 Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini enwebu un Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amherthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Amherthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amherthnasol |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Cylch Gorchwyl – Panel Sgriwtini Cyllid |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**CYLCH GORCHWYL A *MODUS OPERANDI***

**PANEL SGRIWTINI CYLLID**

# RHAN 1 – CEFNDIR A CHYD-DESTUN

## Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."*[1]

*"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?"* yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flynddoedd sydd i ddod.

## Ein Trefniadau Lleol

Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da. Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatau dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

'Roedd y gwaith craffu gan y Panel Sgriwtini Cyllid[2] yn ystod yr Weinyddiaeth ddiwethaf hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn ffocysu ar grwp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)
[2] Sefydlwyd y Panel Sgriwtini Cyllid yn yr Haf, 2017 fel is-banel o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

# RHAN II - YSTOD GWAITH A SGÔP Y PANEL

## YSTOD GWAITH

Bydd y Panel Sgriwtini Cyllid yn gweithredu gyda'r amcanion allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

## SGÔP

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Amwytho** | Amwytho aelodau'r Panel | 4 Gorffennaf, 2022 |
| **Monitro chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf** | Craffu gwariant yn erbyn proffîl cyllidebau | Chwarterol |
| **Cyllideb y flwyddyn i ddod** | Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Gorffennaf → Medi |
| | Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae'n gweithio | |
| | Trosolwg o'r sefyllfa ynghylch arbedion | Hydref → Tachwedd |
| | Craffu risgiau yn gysylltiedig â chynigion y gyllideb | |
| | Craffu pa mor gyraeddadwy ydy'r cynigion | |
| | Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol | |
| **Cynllun Cyllidol Tymor Canol** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Medi |
| **Meysydd Gwasanaeth** | Craffu ar y pwysau mewn gwasanaethau unigol | I'w rhaglennu yn ystod y cylch cyllideb blynyddol |
| **Rheoli Dyledion** | Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu incwm) | I'w gadarnhau |
| **Ffioedd a Thaliadau** | Craffu ffioedd a thaliadau am y flwyddyn ariannol i ddod | I'w gadarnhau |
| **Premiwm Ail Dai** | Craffu ar yr egwyddorion, rhagdybiaethau ac argymhellion | Tachwedd / Rhagfyr (i'w gadarnhau) |

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Cynllun Busnes HRA** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Ionawr / Chwefror |
| **Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn** | Cwestiynu a chraffu | Mehefin / Gorffennaf |

## RHAN III – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

**1. Aelodaeth y Panel**

Ni fydd aelodaeth y Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[3].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau Etholedig** – 3 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
ii. **Aelod Portffolio Adnoddau** – fel sylwedydd, heb bleidlais
iii. **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

**2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor.

- **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[20/06/22]

[3] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 01/09/23]**

Tudalen 75

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid | Siarter Craffu Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23)** | **Hydref, 2023 (17/10/22)** |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Strategaeth Gwastraff ac Ail-gylchu: 2023/2028 |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028 (i'w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Strategaeth Tai Gwag: 2023/28 | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2022/23<br>Adroddiad Cynnydd Ch1: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (18/01/24) – Cyllideb 2024/25** | **Ionawr, 2024 (16/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | |
| Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai) | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/2024)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |



**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (cynllunio ar gyfer Tachwedd, 2023) |
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023/28 |

| | |
|---|---|
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/223) |
| | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Medi, 2024 ac Ionawr, 2025) |